

Blewyn o baith

Rhifyn 469 · Ebrill 2020

Rhifyn digidol arbennig o'r Blewyn Glas - daw eto haul ar fryn!

Cwmniau lleol yn cefnogi gweithwyr y rheng flaen



Pete Cameron, Distyllfa Dyfi

Mae'r argyfwng presennol yn dangos y gorau a'r gwaetha mewn pobl - a braf yw gallu adrodd am gymwynas arbennig Distyllfa Dyfi, Corris. Mae'r cwmni'n adnabyddus am wneud gin sy'n cael ei gyfrif ymhlith y gorau yn y byd, a dyma'r unig gynhyrchwr sydd wedi ennill gwobr 'Gin Gorau Prydain' ddwywaith. Ryden ni wedi bod yn clywed yn ddyddiol ar y cyfryngau am brinder offer diogelwch personol (PPE), gan gynnwys diheintydd dwylo, sy'n wynebu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar hyn o bryd. Gan mai alcohol cryf ydy un o brif gynhwysion yr diheintydd, gwelodd y brodyr Danny a Pete Cameron, perchnogion Distyllfa Dyfi, eu bod mewn sefyllfa i helpu i gwrdd â'r galw yn y tymor byr. Roedd angen dod o hyd i'r cynhwysion eraill (glycerol a hydrogen peroxide) ynghyd â photeli ac roedd eisiau cymorth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) a'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) er mwyn cymeradwyo defnyddio fformiwla cynhyrchu glanhawr dwylo y Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Ar ôl cysylltu â chyrrff y llywodraeth a Chlwestwr Diodydd Cymru llwyddwyd i gynhyrchu dau lwyth i'w roi yn rhad ac am ddim i wasanaethau hanfodol lleol. Mae 31 o fudiadau wedi derbyn cyflenwad o ddiheintydd dwylo Distyllfa Dyfi, gan gynnwys cartrefi

gofal, meddygfeydd, gwasanaeth ambiwlans a'r heddlu, ysbytai Machynlleth a Dolgellau a swyddfeydd dosbarthu'r Post Brenhinol. Dywedodd Pete Cameron, "Gan fod gwerthiant y busnes wedi dioddef cymaint oherwydd yr argyfwng, awgrymwyd y dylem ni werthu'r hylif, ond penderfynwyd ei roi yn rhad ac am ddim er mwyn iddo gyrraedd y bobl oedd ei angen mor fuan â phosibl." Diolch yn fawr i'r cwmni am eu cyfraniad.

Dim ond un enghraifft o bobl yn gwneud gwaith da ydy hwn wrth gwrs. Mae nifer ohonoch wedi bod yn cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Fe welch dan newyddion pentref Cemaes sut mae cwmni adeiladu Tai Dyfi wedi cefnogi gweithwyr iechyd lleol, a chlywsom fod y peintiwr, Kevin Lloyd wedi darparu amddiffynnwr carped, Moduron Geoff Jones wedi darparu pebyll i wneud profion gwaed tu allan, siop Wheelers a chwmni Tecstilau Organig wedi cyfrannu defnyddiau i greu masgiau a Milfeddygon Williams wedi cyfrannu dillad meddygol, rhain i gyd yn gyfraniadau i feddygfa Iechyd Bro Ddyfi ym Machynlleth, a gwyddom fod llawer rhagor ohonoch wedi bod yn gwneud eich rhan. Diolch i chi i gyd.


Rhifyn Arbennig

Mae'n amser rhyfedd ar hyn o bryd gyda phethau ar un llaw yn newid o ddydd i ddydd ond ar y llaw arall ar stop. Rydyn ni'n ddiolchgar bob dydd am garedigrwydd pobl yn ein cymunedau a dewrder ein gweithwyr allweddol a'r gwirfoddolwyr sy'n gofalu am eraill ac yn sicrhau bod bywyd, gofal a hanfodion gan bawb. Diolch hefyd i'r bobl hynny sy'n gwneud eu rhan ac yn aros adref.

Mae'n siŵr bod sawl tŷ ar hyn o bryd yn ddiolchgar am dechnoleg fodern, a hynny i'n caniatáu i allu cadw mewn cysylltiad gyda'n hanwyliaid, yn bell ac agos. Oherwydd fod y rhifyn yma o'r *Blewyn Glas* yn dipyn gwahanol i'r arfer rydym yn ei alw'n **Blewyn o Obaith** gan obeithio y daw ag ychydig o gysur, gobraith a llawenydd i chi, yn ystod y cyfnod rhyfedd yma.

Dymunwn yr iechyd gorau i bob un o'n darllenwyr a'u teuluoedd dros yr wythnosau nesaf.

Cadwch yn saff - daw eto haul ar fryn.



Arwyddion i Godi Calon

Efallai bod rhai ohonoch wedi gweld neu glywed am y grŵp 'Arwyddion Codi Calon' ar Facebook, ble mae plant a phobl ar draws Cymru wedi bod yn creu arwyddion lliwgar i godi calonau a diolch i'n gweithwyr allweddol. Dyma lun o Marged, Morus a Garmon, Tynywern gyda'u harwydd nhw, ac fe welch fwy o'r arwyddion sydd i'w gweld o gwmpas Dyffryn Dyfi ar dudalennau'r rhifyn yma. Da iawn chi blant!



papurblewynglas@gmail.com

Golygydd: Manon Wyn, Glan Coegen, Cemaes, Machynlleth, Powys, SY20 9PR

Panel Golygyddol

Llifon Ellis, Eryl Evans, Gwenfair Glyn, Eirian Jones, Gill Jones, Iola Jones, Lydia Jones, Mari Lisa

Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y papur o reidrydd yn adlewyrchu barn y panel golygyddol

Swyddogion

Cadeirydd: Gwilym Fychan, Felin Newydd, Abercegir (01650 511212)

Ysgrifennydd: Carys Jones, Maesterran, Penegoes, Machynlleth SY20 8UW (01654 702458)

Trysorydd: Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF (01970 881097)

Dylunydd: Elgan Griffiths

Y Blewyn drwy'r post

Swyddog postio'r papur: Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF (01970 881097)
Pris y papur drwy'r post am flwyddyn - £25

Newyddion/Llythyrau/Hysbysebion i'r Blewyn


Dylid e-bostio unrhyw newyddion neu hysbysebion i:
papurblewynglas@gmail.com
neu bostio at Carys Jones, Maesterran, Penegoes, Machynlleth SY20 8UW (01654 702458) maesterran@btopenworld.com
Noder: Gellir archebu cyfres o 6 hysbyseb am bris 5. Hyd at 1/8 tudalen: £10; Hyd at 1/4 tudalen: £20; Hyd at 1/2 tudalen: £40
Tudalen gyfan: £80
Telerau cynnwys taflen
O natur ddiwylliannol: £20;
O natur fasnachol: £30
O natur fasnachol cenedlaethol: £60

Diolchiadau

Swyddog Diolchiadau: Siân Evans, Erw'r Llan, Penegoes, Machynlleth (01654 703603) sianmwyars@outlook.com

Cofiwch na ddylai Diolchiadau neu gyhoeddiadau fod dros 50 o eiriau. Amgawch y tâl priodol sef £5 gyda'r cyhoeddiad mewn amlen gyda'i gilydd i Siân Evans os gwelwch yn dda - drwy'r post neu drwy law eich cysylltydd lleol. Byddwn yn cydnabod tâl o £10 neu fwy, neu unrhyw rodd nad yw'n ddiolchiadau, yn y rhestr Rhoddion.

Cyhoeddwyd gan bwyllgor y Blewyn Glas. Argraffwyd gan Wasg Y Lolfa, Talybont. Aelod o Gymdeithas Papurau Bro Cymraeg.



Sialens!

Mae sawl wŷ Pasg yn cuddio yn y **Blewyn o Obaith** fis yma. Faint ydych chi'n gallu dod o hyd iddynt tybed? Mae'r ateb ar y dudalen ôl!

Gair gan y Panel Golygyddol

Fel y gwyddoch rhifyn digidol yn unig sydd y mis yma. Diolch i bawb sydd wedi gyrru newyddion ac erthyglau atom dan yr amgylchiadau presennol. Dyddiad cau rhifyn Mai o'r Blewyn yw'r 10fed o Fai, a'i gyhoeddi tua'r 23ain o Fai. Gallwn gyhoeddi mai rhifyn digidol 'Blewyn o Obaith' fydd ym mis Mai hefyd a byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn fisol wedi hynny, ond anfonwch eich

newyddion a'ch erthyglau fel arfer i'ch gohebydd lleol neu at papurblewynglas@gmail.com

Yn amlwg ni fydd digwyddiadau yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod yma, felly beth am i'r rhai ohonoch sydd yn segur yn y tŷ fynd ati i lunio erthygl yn sôn am y profiad o hunan ynysu? Lwyddoch chi i wneud pryd diddorol o bethau oedd yng nghefn

y cwpwrdd neu hyd yn oed rysâit aeth o'i le? Ydech chi wedi dod o hyd i eitem annisgwyl wrth dacluso droriau/cypryddau neu beth am yr eitem gyda'r dyddiad 'best before' hynaf? Oes 'na brosiect DIY wedi mynd â'ch amser neu jig-so gorffenedig sydd heb weld golau dydd ers achau? Anfonwch eich erthyglau a'ch hanesion atom, byddai'n braf clywed gennych!

Diolchiadau

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael i goffrau'r Blewyn Glas:

Mel James, Dolerw
Mr Thomas Elfed Davies, Y Trallwng
Dr R. Alun Evans, Caerdydd

Hoffwn ddiolch i bawb am y cyfarchion, cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbynias ar fy mhen-blwydd arbennig yn

ddiweddar. Diolch i Anwen ac Aled a'r teulu am drefnu cinio blasus ym Mhlas Talgarth ac i Catherine am y gacen flasus. Diolch o galon. Mel, Dolerw.

Diolch i bawb sy'n gweithio mor egnïol i gynhyrchu'r Blewyn Glas bob mis. Roedd y rhifyn diwethaf yn arbennig o ddiddorol gan fod ynddo gymaint o amrywiaeth.
Dr R. Alun Evans, Caerdydd

Codi Calon



Megan a Gwenno Morris a'u harwydd lliwgar ger Ysgubor Cae Du, Pandy, Llanbrynmair

Yn y Gegin

gyda Nigeiola!



Anghofwch 'Curo'r Corona'n Coginio'! Mae Nigeiola yma efo rysetiau sy'n actiwali gweithio (mae na ambell lun o'r petha 'corona'n coginio' na fasa mond yn cyrraedd bwrdd 'trychnebb yn y gegin' yn Sioe Aberhosan de - jest deud de!)

Wel sut ydych chi i gyd ddarllenwyr y *Blewyn Glas* - sydd bellach wedi troi'n ddarllenwyr papur digidol (dros dro) **Blewyn o Obaith**? Gobeithio eich bod chi i gyd yn ymdopi efo'r hunan ynysu ma de - dwi'n ffendio fo'n ddigon braf cael pawb adre wir jest fod na dipyn o waith coginio i 6 oedolyn bob dydd a gweithio o adre yr un pryd de? Ond dan ni'n ddiawch o lwcus lle dan ni'n byw dyden ac ma digonedd o fwyd ar gael yn lleol a dan ni'n lwcus iawn o'r holl siopau bach lleol sydd wedi mynd y filltir ychwanegol (yn llythrennol) i sicrhau ein bod i gyd yn cael digon o fwyd i'n cadw ni i fynd. Mae fel tasen ni'n byw nôl fel roedd ein cyndeidiau tua hanner canrif nôl - yn aros yn eiddgar am y bocsiad o nwyddau o'r siop leol a fyddai'n gorfod para am wythnos.

Wel, fel o'n i'n deud, dwi wedi bod yn gwneud dipyn o fwyd yn ddiweddar - gan ddefnyddio pethau digon amheus yr olwg o'r rhewgell! Dwi ddim yn ffan ofnadwy o gwsberins/ffebrins ac mi ffindies i fagied ohonyn nhw ym mherfeddion isa'r rhewgell ddiwrnod o'r blaen, a doedd gen i ddim awydd gneud crymbl efo nhw (ma isio gneud cwstard a ryw ffaff efo crymbl does), felly diawch mi bores i drwy ryw hen, hen ffeil oedd gen i yn llawn o rysetiau on i'n arfer dorri allan o gylchgronau (rhai'n mynd yn ôl i 1990!) ac mi ddes ar draws y ryset yma - Cacen Gwsberins - sy'n andros o hawdd i'w gwneud ac yn syndod o flasus. Triwch hi mae'n 'di-lish'!

Reit ta dyma beth sydd ei angen arnoch chi:

4 owns (100 gram) o fenyn neu fargarin

4 owns o siwgwr brown meddal (er mi faswn i'n rhoi chydig chwaneg - dyna odd y sylw ges i gan y 'swpyr-critics' yn tŷ ni - a siwgr gwyn ddefnyddies i achos doedd gen i ddim byd arall)

2 wŷ

8 owns o flawd codi (ne flawd plaen a 2 lwy de o bowdr codi (*baking powder*))

1 llwy de o sbeis cymysg (opsiynol)

1lb o gwsberins wedi toddi os ydyn nhw wedi dod o'r rhewgell i gael gwared o'r dŵr a'r rhew (neu dwi'n siŵr y gallwch ddefnyddio unrhyw aeron sydd gennych yn llechu yng ngwaelodion y rhewgell!)

4 llwy fwrdd o laeth

Chydig o siwgwr Demarera i'w sbrinclo'n ddel ar y top.

Sut i wneud y gacen:

- Byddwch angen cynna'r popty i wres 350°F /160°C/ Nwy Marc 3
- Irwch a leiniwch dun cacen gron 7 modfedd / 18 cm
- I ddechrau rhowch y menyn a'r siwgwr mewn bowlen reit fawr a chwipiwch nhw nes bo nhw'n fflyffi neis
- Yna ychwanegu'r wyau yn araf a chwipio ffwlspîd ar eu holau (dach chi i fod i'w chwipio nhw cyn eu rhoi i mewn - ond dwi'n gweld hynny'n faeddu bowlen arall heb fod angen felly dwi'n rhoi'r torri'r wŷ mewn un gornel yn y gymysgedd a'i chwipio efo fforcen yn fannu cyn ei gymysgu i mewn)
- Wedyn ychwanegwch y blawd a'i gymysgu gyda llwy fetel.
- Yna ychwanegwch y llaeth i llwy fwrdd ar y tro (ella na fyddwch

chi angen 4 llwy fwrdd - ma'n dibynnu ar faint eich wyau chi - dach chi angen cymysgedd meddal sy'n cwmpo oddi ar y llwy yn reit hawdd)


- Ychwanegwch y ffebrins i'r gymysgedd yn ofalus.
- Tolltwch y cyfan i mewn i'r tun a'i lefelu yna 'sbrinclewch' y siwgwr demarera dros y top
- Rhowch y gacen yn y popty am awr a hanner OND sbeciwch arni ar ôl ¾ awr achos mae'n gallu brownio'n fuan - os hynny rhowch bapur brown yn ysgafn dros dop y tun.
- Mae hon yn neis iawn un ai'n gynnes neu'n oer efo dolop reit hael o hufen.



Dyma chi lun o fy nghacen i a barodd tua hanner awr ar ôl ei thynnu allan o'r popty (a finna di meddwl y base gen i gacen i de am ddeuddydd!)

Dwi'n siŵr y gallwch ei choginio mewn unrhyw fath o dun - mi wnes i un arall wythnos yma a'i rhoi mewn tun hir i'w gwneud fel 'tray bake' gan ei thorri'n sgwarie gan obeithio y base hi'n para'n hirach - ond diflannu wnaeth honno hefyd!

Beth am i chithau rannu eich rysetiau a llun o'r eitem orffenedig at papurplewynglas@gmail.com. Cadwch yn ddiogel ac arhoswch adre.



CLWB 300

Dyma restr o
enillwyr Ebrill
2020:

£50 - S.M.Richards, Fedwfaen, Aberhosan, Machynlleth
£40 - Steffan Hywel, Maesycreiau, Llanwrin, Machynlleth
£30 - Enid Evans, Trem y Rhos, Bontgoch, Talybont
£20 - Ceinwen Jones, Maes yr Afon, Llanbrynmair
£10 - Gwawr Price, Hafan, Forge Road, Machynlleth

Ysgol Glantwymyn

CD Eisteddfod yr Urdd

Gan nad oedd Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal eleni, a'r plant wedi bod yn eithriadol o brysur yn dysgu eu darnau penderfynodd y plant wneud cyngerdd Urdd i weddill blant yr ysgol. Yn ystod y bore, penderfynwyd gwneud CD o'r perfformiadau i'w rhoi yn anrheg i Ysbyty Gymunedol Machynlleth a Chartref Dyfi. Gobeithio bod pawb wedi mwynhau gwrando ar y plant. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi bod mor brysur yn helpu'r plant i ddysgu eu darnau.

Siop Lyfrau Penrallt

Cysylltodd Diane o siop lyfrau Penrallt gyda'r ysgol er mwyn cynnig llyfrau i'r disgyblion ar gyfer Diwrnod y Llyfr. Gan ddefnyddio eu tocynnau o'r Cyngor Llyfrau roedd hyn yn golygu bod pob plentyn yn yr ysgol wedi cael llyfr newydd sbon i fynd adre gyda nhw. Diolch yn fawr iawn i Diane a phawb o Siop Lyfrau Penrallt ym Machynlleth. Roedd y plant wrth eu boddau.



PC Viv

Daeth PC Viv, ein swyddog Heddlu Cymuned Ysgolion, atom ym mis Mawrth i siarad gyda disgyblion ym mlynedd 5 a 6 am gyffuriau. Diolch yn fawr iawn iddi am ddod atom gyda'i neges bwysig.



Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd

Yn ffodus, er i'r Eisteddfod Cylch gael ei chanslo eleni, fe gafodd yr adran Celf, Crefft a Dylunio ei beirniadu beth bynnag. Rydym yn falch iawn o bawb gymerodd rhan, ac yn llongyfarch yr holl ddisgyblion ddaeth i'r brig. Dyma luniau ychydig o'r gwaith buddugol.

Cogurdd

Fe soniwyd yn y rhifyn diwetha' mai Cara Pughe enillodd rownd gyntaf Cogurdd yn yr ysgol eleni. Llongyfarchiadau iddi ar greu cebabs ffrwythau a dip iogwrt bendigedig.



Y gymuned yn camu i'r adwy i lenwi bwlch darparu offer hanfodol i weithwyr iechyd a gofal

Mae grŵp cymunedol lleol a sefydlwyd i gefnogi pobl yn ardal Machynlleth yn ystod yr argyfwng presennol yn helpu i ddarparu offer amddiffyn hanfodol (OAH) i weithwyr iechyd lleol a gweithwyr rheng flaen eraill.

Mae grŵp Ymateb Gymunedol Corona Machynlleth (YGCM), grŵp o wirfoddolwyr lleol, wedi camu i'r adwy i sicrhau bod digonedd o offer amddiffyn hanfodol megis sgryps a misyrnau (*visors*) ar gael i ysbytai a chanolfannau iechyd lleol.

Dywedodd Dr Louise Hyde,

meddyg o Fachynlleth, gan amlygu'r diffyg cenedlaethol:

"Mae'n hanfodol bod ein ffrindiau a'n teulu sy'n gweithio yn y GIG neu'n gofalu am bobl fregus yn cael eu hamddiffyn, ac yn derbyn yr offer priodol. Mae OAH yn dal heb gyrraedd cannoedd, os nad miloedd o staff y rheng flaen - ceir adroddiadau o bedwar ban gan ddoctoriaid bod cyflenwadau'n rhedeg allan, yn cael eu rhoi ar ddog, neu nad ydynt yn amddiffyn gweithwyr yn iawn."

Mae gwirfoddolwyr cymunedol YGCM yn gwnïo sgryps gan ddefnyddio deunydd

a roddwyd gan gwmni tecstilau lleol, tra bod eraill yn defnyddio argraffwyr 3D a thorwyr laser i greu cannoedd o fisyrnau plastig. Codwyd dros £300 gan y grŵp i gyfrannu at gostau.

Dywedodd llefarydd ar ran YGCM:

"Mae gweithwyr iechyd a gweithwyr rheng flaen eraill yn gwneud popeth o fewn eu gallu i amddiffyn bywydau ac mae'n hanfodol eu bod hwythau'n cael eu hamddiffyn. Yn wyneb diffyg darpariaeth offer diogelwch hanfodol, mae'r gymuned yn gwneud popeth y gallwn i helpu."

Os ydych yn gallu helpu, gallwch gysylltu â YGCM trwy info@machynllethsupport.net neu ymuno â'u grŵp Gweplyfr am ragor o wybodaeth. Gallwch adael rhoddion o OAH yn y bocs pwrpasol y tu allan i Midcounties Co-op (Tuffins) ym Machynlleth.

Mae YGCM hefyd yn darparu llinell ffôn a chyfeiriad e-bost pwrpasol i gefnogi'r gymuned lleol. Gall unrhyw un sy'n hunan-ynysu ac sydd angen cyflenwadau angenrheidiol neu sydd eisiau clywed llais cyfeillgar ar y ffôn alw 01654 370 002 (9yb-5yh) i gael eu cysylltu â rhywun a all helpu.

O'r Mynydd i'r Môr gan Siân Stacey

Mae llawer iawn wedi newid i bawb dros y mis diwethaf. Fel y mwyafrif, rydw i'n gweithio o adref, sydd yn rhwystredig gan mai fy rôl i yma yn O'r Mynydd i'r Môr yw ymgysylltu â'r gymuned. Roeddwn i'n edrych ymlaen at gwrdd nifer ohonoch yn ein sesiynau dros banded, er mwyn trafod eich syniadau a'ch sylwadau am y prosiect.

Wrth gwrs, dydyn ni fel prosiect ddim yn gallu cynnal ein sesiynau 'Paned y Prosiect' ar hyn o bryd. Felly am y tro rydym yn cymryd cam '2 medr' yn ôl o ymgysylltu i roi'r lle ac amser i'r gymuned orosi'r sialens sydd o'n blaenau ni gyd.

Rydw i dal ar gael dros e-bost (sian.stacey@ormynyddirmor.cymru) am sgwrs, ac yn hapus iawn i siarad dros y ffôn neu gyfarfod ar-lein drwy 'Zoom' neu 'Hangouts'. Yn y cyfamser, rydym wrthi'n paratoi am sut y byddwn ni'n ymateb i'r sefyllfa, a byddwn yn diweddarau ein gwefan er mwyn rhannu'r wybodaeth gyda chi.

Er ei bod hi'n amser heriol, mae'n rhaid i ni ddathlu'r holl ymdrech cymunedol sydd ar droed yn yr ardal. Yn bersonol, rydw i wedi cyffroi wrth weld busnesau yn dod at ei gilydd er mwyn cefnogi'r gymuned gyda bocsys bwyd yn cael eu darparu i bobl sy'n gorfod hunan ynysu, a gwasanaethau eraill creadigol. Un enghraifft wych yw <https://ymaichi.co.uk/>, gwefan newydd sbon i hyrwyddo a gwerthu bwydydd lleol o Geredigion, ac yn hwyluso'r broses o brynu bwyd lleol ar-lein.

Mae'r cynhyrchwyr bwyd lleol hefyd wedi bod yn wych. Gai rhoi 'shout out' penodol i'r criw ym Mach Maethlon sydd wedi bod yn cydlynu gweithredu cymunedol i greu



cynllun ar gyfer cynhyrchu bwyd yn lleol - o ddarganfod darnau o dir i dyfu, paratoi gwybodaeth i ffermwyr a thyfwyr a sefydlu 'Byddin y Tir', pobl yn yr ardal sy'n barod i helpu i dyfu a chynaeafu bwyd. Mae gymaint mwy y gallwn eu henwi.

Diolch i'r holl gynhyrchwyr lleol, gweithwyr y gwasanaeth iechyd, yr holl siopau bwyd a phob un sy'n gwirfoddoli ein cymunedau ar hyn o bryd. Cadwch yn ddiogel a chofiwch gysylltu os hoffech sgwrs.

Bontfaen ac Uwchgygarreg

Miss Catrin Davies, Godre'r Graig
(01654 703226)
puddles3dragons@yahoo.co.uk

Pen-blwydd arbennig

Bu Jayne, Talbontdrain yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio y cefaiast ddiwrnod hyfryd, Jayne.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Clara, Byrdir sydd wedi colli ei modryb yn ddiweddar.

Cwmlinlau

Mrs Eleri Waters
elericwm@hotmail.com

Parc chwarae newydd

Ar ôl blwyddyn a hanner o waith caled yn codi arian yn ogystal ag ymgeisio am grantiau, mae'r ymgais ar gyfer adeiladu parc newydd yn Cwm wedi bod yn llwyddiannus. Edrychwn ymlaen yn fawr at pan fydd y gwaith yma'n dechrau cyn gynted â phosib. Diolch i ti, Kelly Richards am dy holl waith.

Carno

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Llyr ac Ebonie Thomas, Pensarn, ar enedigaeth mab ar Fawrth 27ain, brawd bach i Alys a Magi ac ŵyr i Huw a Delyth, Sarn ac Aiden a Beryl Gethin, Llanllyr. Braf ydy cael rhannu newyddion da yn y **Blewyn o Obaith**.

Glantwymyn

Heledd Glyn Jones, Cynefin
heleddg@hotmail.com / 07837 781795

Llongyfarchiadau

Ar ddydd Sadwrn, y 14eg o Fawrth fe briododd Michael, perchennog tafarn y Dyfi ac Amanda yn Lavender Bay, Sydney, Awstralia. Fe gynhaliwyd y briodas yng nghartref rhieni Amanda - yn hytrach nag yn yr ardd fotaneg, gan ei bod yn bwrw glaw ar y diwrnod - arwydd o

lwc medd rhai! Cafodd y ddau ddiwrnod bendigedig ymysg teulu a ffrindiau agos ac wedi creu atgofion oes. Ymlaen â nhw wedyn i Noosa Heads yn Queensland ar eu mis mêl. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau i chi tuag at y dyfodol ac yn gobeithio y cawn godi gwydr i Mr a Mrs Denton yn fuan yn y Dyfi!



Lowri, Jac a Swyn, Goedol, Llanwrin

Codi Calon



Huw Ifan, Nantygaseg gyda'i neges bwysig i drigolion Abercegir

Cylch Meithrin a Ti a Fi Glantwymyn

Wel, mae hi wedi bod yn gyfnod rhyfedd ar bawb dros yr wythnosau diwethaf ond dydy hynny ddim wedi amharu ar hwyl plant Cylch Meithrin Glantwymyn.

Mae'r plant a'r staff yn cysylltu'n ddyddiol â'i gilydd ar grŵp ar y cyfryngau cymdeithasol, yn gyrru cyfarchion, rhannu syniadau am weithgareddau amrywiol, ac yn rhannu newyddion. Maent wedi bod yn cynnal ymchwiliadau gwyddonol yn edrych ar bethau sy'n arnofio ac yn suddo, yn peintio, cyfri, perfformio caneuon gwahanol, chwarae ac yn helpu adref.

Rhannodd Anti Sioned fideo yn dangos i'r plant sut oedd y grifft llyffant oedd yn y Cylch gyda nhw cyn iddynt gau wedi newid o fod yn jeli i benbyliaid! Yn fuan wedyn, er mawr syndod, roedd Llyr, un o blant y Cylch wedi dod o hyd i froga ar y fferm ac wedi llwyddo i'w ddal a thynnu llun ohono. Am hwyl!

Nid Broga oedd yr unig greadur byw i'r plant ei ddarganfod, daeth Elis ar draws neidr ddafad yn yr ardd ac 'roedd wrth ei fodd yn arsylwi arni.

Mae llawer o'r plant wedi bod yn helpu gyda'r defaid ac ŵyn bach, yn gofalu am y cŵn bach ac yn chwarae allan yn yr awyr iach. Cyn i'r Cylch gau, roeddent wedi dal y bws i Fachynlleth i gwrdd ag Anti Jen a'r henoed, wedi bod yn cymryd rhan mewn heriau cerddoriaeth ac yn arsylwi ar arbrawf sut mae glaw yn teithio trwy'r cymylau.

Cadwch yn saff bawb, a daliwch ati i yrru eich lluniau a'ch fideos i'r grŵp - gwych!



Cafwyd llawer o hwyl yn mynd ar y Bws i Fachynlleth



Mali Enlli a Hari Arthur yn arsylwi ar arbrawf gwyddonol

Llythyr

Hoffwn ddiolch i rieni, disgyblion ac athrawon Ysgol Llanbryn-mair fynychodd y cyngerdd ar ddydd Gwener, 6ed o Fawrth. Fe lwyddom i godi £500 (heb y costau) tuag at gyfleusterau hyfforddiant i bobl ifanc yn nwyrain Uganda, lle mae yna 46% o ddiweithdra. Dydy'r llywodraeth ddim yn darparu addysg na hyfforddiant ar ôl 14 oed yno a dydy'r rhan fwyaf o'r rhieni ddim yn gallu fforddio beth sydd ar gael. Does yna ddim budd-daliadau diweithdra ar gael yno.

Hefyd hoffwn ddiolch i'r bobl wnaeth gynnal bore coffi yn Sŵn yr Iaen yn ddiweddarach hefyd. Codwyd £175 yn ychwanegol; bydd hyn yn gymorth mawr i'r prosiect sydd nawr yn cychwyn yn Uganda.

Am y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn codi arian at gael dŵr i'r pentref, Kabakuli. Gorffennwyd hyn ym mis Ionawr gyda chostau o £14,500, ond sydd rŵan yn golygu nad oes angen i ferched gerdded milltir i nôl dŵr yn ystod y tymor sych.

Ar gyfer y cynllun hyfforddiant presennol byddwn ni'n gweithio gyda Dolen Ffermio (ger Llanfyllin). Maen nhw'n cysylltu gyda'n partneriaid ni yn Uganda, sydd yn y pentref sy'n agos i'r cynllun dŵr.

Ar wahân i godi arian roedd yna fudd arall o gynnal y cyngerdd, sef i ddangos talent lleol i gymaint o bobl â phosib, gan gynnwys y rhai sydd wedi symud i mewn i'r ardal a'r rhai sy'n methu dilyn yr eisteddfodau. Rydym yn paratoi cyfieithiadau o'r caneuon ar eu cyfer lle mae'n bosib hefyd. Mae llawer o bobl yn anymwybodol o safon ein perfformwyr lleol a'r ymdrech a'r gwaith caled sy'n cael ei fuddsoddi wrth eu hyfforddi.

Ffurfiodd côr yr ysgol, Band Chwyth Machynlleth, Cerys Hafana y delynores leol a Chôr Llanwnnog raglen ddifyr i bawb. Yn anffodus ni fyddwn yn gallu clywed Cerys mor aml o hyn ymlaen achos bydd hi'n mynd i goleg cerddoriaeth, ble bydd llawer mwy o alwad am ei thalent ragorol.

Cafodd y cyntaf o'r tri chyngerdd a drefnwyd ei gefnogi'n dda, ac roedd yn ddigwyddiad cymunedol arbennig. Mi fyddai'n drueni os na chawn ni ragor. Mae addysg cerddoriaeth yn dioddef yn ofnadwy oherwydd prinder arian, ond mae cerddorion ifanc yn manteisio gymaint wrth gydweithio gyda cherddorion hŷn, a chlywed traddodiadau cerddorol eraill. Mae pobl ifanc heddiw hefyd yn ffodus o fudiad yr Urdd er mwyn gwella a pherfformio yn ystod eu hieuenctid. Ond, heb gynulleidfa sut fydd y traddodiadau yma'n gallu parhau?

Yn gywir,

Alison Williamson

BYDDNATUR

gydag Elfyn Pugh

Yr ydym yn byw mewn cyfnod cythryblus o dan gwmwl y coronafeirws. Mae'n gyfnod arbennig o anodd i bawb, ac fe'n hanogir i aros adref, hunan-ynysu a chadw pellter oddi wrth bobl eraill. O ganlyniad yr ydym yn chwilio am ffyrdd newydd i lenwi ein dyddiau, yn treulio mwy o amser gyda'n teulu sy' o dan yr un to ac efallai yn myfyrio ar fywyd a'r hyn sydd o'n blaen pan ddaw'r cyfnod yma i ben.

Troi at natur y bydda i. Mae natur a'i gallu i gysuro wedi bod o gymorth mawr i mi yn ystod cyfnodau anodd. Yr ydym yn ffodus iawn o fyw yn Nyffryn Dyfi gyda'i harddwch godidog, naturiol. A, hyd yn oed o dan y cyfyngiadau presennol mae'n bosibl i ni fedru mynd am dro, beicio neu redeg ac edmygu'r wlad o'n cwmpas.

Daeth y feirws i'n llethu yn union ar yr adeg pan mae byd natur yn deffro gyda'r Gwanwyn. Rydym wedi mwynhau tywydd bendigedig yn ddiweddar sy'n ein hannog i fynd allan ac ymgolli yn y 'tonic of wildness' yn ôl Henry David Thoreau, awdur, bardd ac athronydd Americanaidd a oedd hefyd yn astudiwr brwd o natur.

Mae ein coedwigoedd a'r gwrychoedd yn blaguro a'r adar yn dechrau prysuro. Mae'r tywydd braf wedi golygu fy mod wedi treulio oriau lawer yn brysur yn yr ardd gyda chŵn yr adar yn y cefndir. Mor braf yw sylwi ar nodau melys y Fronfraith gyda Brych y Coed (mistle thrush) sydd a chân mwy trist a hefyd y Fwyalchen gyda'i nodau pêr. Ond i mi, y Fronfraith sy'n ennill bob tro.

Yn y goedwig tu ôl y tŷ y mae Cnocell Fraith Fwyaf (great spotted woodpecker) - aderyn du a gwyn cyffredin i'r goedwig wrthi'n brysur yn cnocio ar foncyff coeden. Fe'i clywir o bell a does dim dwywaith mai ef yw offerynnwr taro gorau'r goedwig. Dyma ei ffordd o adael i adar eraill wybod mai dyma ei diriogaeth a'i ddarn arbennig ef o'r goedwig. Yna, cawn Ysgrech y Coed (Jay), aderyn swil sy'n barod i gyhoeddi presenoldeb unrhyw un sydd yn ceisio cerdded yn dawel yn y coed. Y mae'n aderyn hardd a chlyfar iawn. Bydd wrthi yn brysur yn yr Hydref yn casglu cannoedd os nad miloedd o fês gan eu claddu yma ac acw at gyfnodau llwm yn ystod y Gaeaf pan y bydd bwyd arall yn brin, a chan

amlaf mae'n cofio yn iawn lle y mae wedi eu claddu.

Mae'r coedwigoedd derw yn prysur lenwi gyda chân adar sy wedi treulio'r Gaeaf yn yr Affrig ond sydd yn dychwelyd yma at yr haf. Adar fel y Siff-saff (Chiff-chaff), Telor yr Helyg (Willow Warbler), Telor Penddu (Blackcap) ond yr un dwi'n edrych ymlaen fwyaf at ei ddychwelyd ydy Telor y Coed (Wood Warbler). Mae o i weld yn aml yn ein coed derw ni ac yn brysur yn chwilota am bryfetach yn uchel yn y coed. Fe glywir ei

gân, gan fwyaf ym mis Mai, pan fydd ei blu yn ymdebygu i flagur gwyrdd dail derw. Rhennir ei gân yn ddwy, tril metalaidd hylifol uchel ac yna chwibaniad disgynnol a rhaid gwrandio yn astud i'w glywed.

Wrth fynd am dro a sylwi ar flodau'r Gwanwyn megis Briallu, Llygad Ebrill, Blodyn y Gwynt,

Suran y Coed ac at ddiwedd Ebrill, Clychau'r Gôg gwrandewch ar gân yr adar a cheisiwch eu didoli. Gwyliwch y Bwncath (Buzzards), Barcud Coch (Kite), a'r Gigfran (Raven). Gellir eu gweld weithiau ar ddiwrnod braf yn cystadlu gyda'i gilydd wrth hedfan. Mae'r Bwncath i'w weld yn aml ar bostyn lein a'i lygaid yn chwilio'r ddaear am ei bryd nesa, boed lygoden, neu gwningen. Mae'r Barcud Coch yn dueddol o hedfan gan chwilio islaw am ei fwyd - maen nhw'n medru gweld yn arbennig o dda.

Ond, yr adar sy'n cyhoeddi go iawn fod y Gwanwyn wedi dod ydy'r Wennoliaid a'u perthnasau agos megis Gwennol y Bondo (House Martins) a Gwennol y Glennydd (Sand Martins). Gwelais y Wennol gyntaf eleni ar Ebrill 3ydd. Yr wyf yn edmygwyr mawr o'r Wennol, mae'n treulio'r Gaeaf yn Ne Affrica ac yna mae'r daith hir a pheryglus yn ôl i Brydain ar draws Anialwch y Sahara. Bob haf y maent yn dychwelyd i nythu yn yr un sguor neu sied. Y mae Gwennol y Bondo yn adeiladu ei nyth o fwd o dan fondo ein tŷ. Y mae nifer ohonom yn eu croesawu ac eraill yn eu casáu oherwydd y baw sy'n cwmpo o'r nyth pan ddaw'r cywion bach. Fe fyddai'n dda i ni gyd eu croesawu oherwydd y mae eu niferoedd yn dirywio oherwydd nifer o ffactorau.

I'w barhau yn rhifyn mis Mai.



Carpus o glychau'r gog Dyffryn Dyfi

Blodau mis Ebrill

Wel tydi hi'n braf gweld y gwanwyn ar hyd y lle 'dwch? Beth bynnag arall sy'n mynd ymlaen yn yr hen fyd ma, ma'r ardd yn dechrau deffro a'r blodau ffyddlon yn dod allan i roi pleser gweledol inni.

Ond ydach chi'n 'nabod y blodau yma? Y gamp ichi ydi eu henwi! Fe dynnwyd y lluniau yma ddydd Sadwrn 11 Ebrill gyda llaw felly mae'r rhain yn eu blodau ar hyn o bryd mewn gardd ym Mro Ddyfi. Os byddwch mewn penbleth (ac yn methu dod o hyd iddyn nhw ar Google!) mae'r atebion i'w gweld ar y dudalen olaf.



Comins Coch

Nia Wyn, Chwedrws (Gelliau),
chwedrws@btinternet.com 07988696755

Gwobrau Jin Y Byd

Llongyfarchiadau mawr i Pete a Mary Cameron, Allt Einion a Danny sef brawd Pete ar eu llwyddiant parhaus fel un o gynhyrchwyr mawreddog 'Craft Gin' ym Mhrydain. Yn ddiweddar mae'r jin wedi ennill tair medal yng ngwobrau jin y byd 2020.

Dyfarnwyd y 'Dyfi Original' y jin sych Cymraeg orau, rhoddwyd gwobr aur i'r 'Pollination Gin' a gwobr arian i'r jin 'Hibernation'.

Sefydlwyd y distyllfa gan Pete a'i frawd Danny pedair blynedd yn ôl. Mae 'Dyfi Distillery' wedi'i leoli yng Nghanolfan Creffttau Corris.



Ar y Teledu

Braf oedd gweld Siôn Aeron ar y teledu ar raglen 'Hyd Y Pwrs' un nos Sadwrn ddechrau Ebrill. Bu Aeron yn rhan o sgriptio'r bedair rhaglen ynghyd â gweddill y cast. Pob hwyl i ti gyda'r rhaglen Aeron.

SUDOKU

Mae rheolau Sudoku yn hawdd. Mae angen rhif rhwng 1 a 9 ym mhob bwlech gwag. Dylai pob rhes ar draws y grid gynnwys pob un o'r rhifau rhwng 1 a 9. Dylai pob colofn i lawr y grid gynnwys pob un o'r rhifau 1 i 9. Dylai pob sgwâr 3 x 3 hefyd gynnwys pob un o'r rhifau o 1 i 9. Does ond un ateb cywir.

6	4	2						3
5		1	4	6		8		
9	7			5	1		6	
	6		9	8		4		1
	9	7			4	5	3	6
2		4	6		5	7	8	
1							7	8
7		9	2	1	3		4	
4	5		8		9	3	1	

Blewyn o'r Beirdd

gan Mari Lisa

Nid oes yng ngwreiddyn Bod un wywedigaeth
Yno mae'n rhuddin yn parhau.
Yno mae'r dewrder sy'n dynnerwch
Bywyd pob bywyd brau.

Yno wedi'r ystorm y cilia'r galon.
Mae'r byd yn chwâl,
Ond yn yr isel gaer mae gwiwer gwynfyd
Heno yn gwneud ei gwâl.
(Waldo Williams, *Dail Pren*, t.61)

Mae dros dri chwarter canrif wedi mynd heibio ers i Waldo Williams (1904 - 1971) ysgrifennu'r gerdd uchod. Does dim teitl iddi. Does dim angen un ychwaith. Mae hi'n coffleiddio ac yn cysuro. Fel lapio'ch hun mewn blanced. Fel eistedd o flaen tanllwyth o dân. Fel paned da o de. Fel haul y bore.

Llynyn mesur bardd - i mi beth bynnag - ydi rhywun sy'n gallu ennyn rhyw ddealltwriaeth ddofn ynoch chi yn ddigymell, yn ddiesboniad, ac yn ddiamser. Yn y gerdd hon, mae Waldo yn pontio'r degawdau ac yn rhoi cwtsh mawr geiriol inni. Sbiwch ar ei ddewis o eiriau: 'gwreiddyn', 'cilio', 'isel gaer', 'gwâl'. O gymhwyso'r gerdd at ein sefyllfa ni heddiw, wrth i ni gilio i'n caerau, a byw ein bywydau o fewn libart ein gwaliau, mae'r gwraidd yn adfer eu nerth. Mae yna blanhigion newydd yn egino. Mae yna goed a fydd yn dwyn ffrwyth newydd. Mae yna ddewrder mawr o'n cwmpas ni bob dydd sy'n rhoi bywyd i fywydau brau. Mae'r 'rhuddin yn parhau'. Dydy gobaith fyth yn gwywo.

Gwybodaeth a chyingor yn ardal Bro Ddyfi gan Ecodyfi

Mae Ecodyfi fel nifer o unigolion a grwpiau cymunedol eraill yn ceisio cynnig cymorth a chefnogaeth i drigolion yr ardal hon.

Mae'r Blewyn Glas yn gyfrwng pwysig i fedru cyrraedd trigolion yr ardal a'r rhai sydd yn hunan ynysu yn y cyfnod yma gyda gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael.

Mae Ecodyfi trwy ei gwefan www.ecodyfi.cymru/ gwybodaeth-gymunedol yn cynnig gwybodaeth am:

- gefnogaeth o bob math i rai sy'n profi pob math o anghenion personol, ariannol ac ati sydd ar gael yn lleol
- cefnogaeth o ran gwasanaethau bwyd a

nwyddau gan gynnwys amseroedd agor a pha fodd i gael mynediad iddynt, yn ogystal â rhai sydd yn cludo / dosbarthu.

- stop un siop ar gyfer anghenion gwybodaeth yr ardal mewn un lle.

Gan fod y sefyllfa yn newid yn ddyddiol mae swyddogion Ecodyfi yn ceisio diweddarau'r wybodaeth cyn gynted â phosibl. Mae croeso i chi hefyd gynnig gwybodaeth a'n diweddarau am wasanaethau sydd ddim wedi eu rhestru ar y wefan drwy yrru e-bost i info@ecodyfi.cymru neu ffonio / tecstio Arfon ar 07426914442 i'w roi ar y wefan.

Mae Ecodyfi yma i chi!

Codi Calon



Efan Wyn a Llyr Ifor, Dugoed Mawr




Gwenno a Gwern, Rhosdyrnog gyda'u harwyddion i godi calon pentrefwyr Talywern a Darowen.




Manon a Megan, Lluet Wen yn diolch i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd



Aneira Lois gyda'i harwydd ger Cae Poeth, Uwchgarreg



Canlyniadau Celf, Dylunio a Thechnoleg Cylch Bro Ddyfi 2020



Er na fydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, yn ffodus roedd gwaith celf, dylunio a thechnoleg Cylch Bro Ddyfi wedi cael ei feirniadu cyn i'r amgylchiadau presennol ddod i rym. Llongyfarchiadau i bob un sydd wedi dod i'r brig, ac i holl blant yr ysgolion sydd wedi bod yn brysur yn paratoi eitemau i gystadlu.

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 2 ac iau

Gwenlli Crowley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Angharad Mair Jones, Ysgol Bro Hyddgen
Erin Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 3 a 4

Nanw Ap Dafydd Tomos, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Gertrude Butler, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Olivia Bullen, Ysgol Bro Hyddgen

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 5 a 6

Esther West, Ysgol Bro Hyddgen
Caio Tudur Watkins, Ysgol Gynradd Carno
Gwenno Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwaith Creadigol 2D Bl. 2 ac iau (Unigol)

Gethin Rhys, Ysgol Gynradd Carno
Fflori Butler, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Gwaith Creadigol 2D Bl. 3 a 4 (Unigol)

Ffion Haf Davies, Ysgol Bro Hyddgen
Nanw Ap Dafydd Tomos, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Ruby Cook, Ysgol Bro Hyddgen

Gwaith Creadigol 2D Bl. 5 a 6 (Unigol)

Ania Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Deio Pennant Jones, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Siwan Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Gwaith Creadigol 2D Bl. 2 ac iau

(Gwaith Grŵp)
Parti Aron Wyn, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Gwaith Creadigol 2D Bl. 3 a 4

(Gwaith Grŵp)
Ysgol Llanbryn-mair, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Grŵp Derwen, Ysgol Bro Hyddgen
Grŵp Afallen, Ysgol Bro Hyddgen

Gwaith Creadigol 2D Bl. 5 a 6

(Gwaith Grŵp)
Alffi ac Ashton, Ysgol Gynradd Carno
Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Grŵp y Merched, Ysgol Gynradd Carno

Dyluniad 2D Bl 6 ac iau

Lillian LeMaitre, Ysgol Gynradd Carno
Maddie-Ane Harrison, Ysgol Gynradd Carno
Gethin Griffiths, Ysgol Gynradd Carno

Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 2 ac iau

Cherry Woosnam, Ysgol Gynradd Carno
Isaac Davies, Ysgol Gynradd Carno
Lydia Ashworth, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 3 a 4

Aria Wyn Davies, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Tomos Huw Owen, Ysgol Gynradd Carno
Llinos Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 5 a 6

Keira Piers, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Deio Pennant Jones, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Caleb Hughes, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Print Monocrom Bl. 2 ac iau

Gwenlli Crowley, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Print Monocrom Bl. 3 a 4

Llinos Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Ffion Haf Davies, Ysgol Bro Hyddgen

Print Monocrom Bl. 5 a 6

Elsi Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Heledd Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Siwan Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Print Lliw Bl. 2 ac iau

Gwenlli Crowley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Gwenllian Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Print Lliw Bl. 3 a 4

Neve Curley, Ysgol Bro Hyddgen
Llinos Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Ffion Haf Davies, Ysgol Bro Hyddgen

Print Lliw Bl. 5 a 6

Heledd Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Elsi Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Siân Erin Owen, Ysgol Gynradd Carno

Cyfes o Brintiau Monocrom Bl. 3 a 4

Llinos Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Neve Curley, Ysgol Bro Hyddgen

Cyfes o Brintiau Monocrom Bl. 5 a 6

Heledd Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Siwan Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Cyfes o Brintiau Lliw Bl. 2 ac iau

Gwenlli Crowley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Mabon Hughes, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Gwenllian Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Cyfes o Brintiau Lliw Bl. 3 a 4

Llinos Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Ffion Haf Davies, Ysgol Bro Hyddgen

Cyfes o Brintiau Lliw Bl. 5 a 6

Heledd Edwards, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Siwan Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Siân Erin Owen, Ysgol Gynradd Carno

Argraffu Bl. 2 ac iau

Annes Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Megan Morris, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Gwenllian Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Argraffu Bl. 3 a 4

Eurig Mason, Ysgol Bro Hyddgen
Gwenlli Pennant Elinor Jones, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Argraffu Bl. 5 a 6

Morgan Mason, Ysgol Bro Hyddgen
Siwan Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 2 ac iau

Annes Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 3 a 4

Eurig Mason, Ysgol Bro Hyddgen

Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 5 a 6

Morgan Mason, Ysgol Bro Hyddgen
Deio Pennant Jones, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Siwan Ashton, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair

Gwaith Creadigol 2D Tecstilau Bl. 2 ac iau

Annes Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwaith Creadigol 2D Tecstilau Bl. 3 a 4

Gwern Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwaith Creadigol 2D Tecstilau Bl. 5 a 6

Gwenno Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Caleb Hughes, Ysgol Gynradd Llanbryn-mair
Ania Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Cymdeithas Edward Llwyd

Y Barcut Coch



Wel, mi oedd bach o grafu pen y tro yma, roedd gen i bethau i ddweud ond angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel mae'n digwydd yn aml ddoth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi a darllen erthygl am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan. Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen, wedi bod yn ddigon hapus i dynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio a gosod y camera yn iawn. Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant ble maen nhw'n bwydo'r barcut coch. Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed, maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i fwcad o gig, yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwyso'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, rhan fwyaf roeddwn i'n gallu taflu a dwsin i gadw. Dyma oedd y gorau. Popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond ces i hwyl.

Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech cyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi'u hallforio i Iwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow.

Os oes gennych chi siawns i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera, Mwynhewch gyda'ch llygaid!

Rob Evans

Gwaith Creadigol 2D Tecstilau Bl. 3 a 4 (Grŵp)

Ysgol Gynradd Llanbrynmair
Grŵp Heledd, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Grŵp Emily, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwaith Creadigol 2D Tecstilau Bl. 5 a 6 (Grŵp)

Grŵp Tomos, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Gwaith Creadigol 3D Tecstilau Bl. 2 ac iau
Annes Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwaith Creadigol 3D Tecstilau Bl. 3 a 4

Emily Kiely, Ysgol Gynradd Carno

Gwaith Creadigol 3D Tecstilau Bl. 5 a 6

Gwenno Wigley, Ysgol Gynradd
Glantwymyn

Gwehyddu Bl. 2 ac iau

Gwenllian Ashton, Ysgol Gynradd
Llanbrynmair
Annes Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Mared Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwehyddu Bl. 3 a 4

Lillian LeMaitre, Ysgol Gynradd Carno
Lisa Dixon, Ysgol Bro Hyddgen
Mari Grace Lloyd, Ysgol Gynradd
Glantwymyn

Gwehyddu Bl. 5 a 6

Siwan Ashton, Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Gwehyddu Bl. 2 ac iau (Gwaith Grŵp)

Isaac, Gethin ac Iwan Ysgol Gynradd Carno
Parti Elsi, Ysgol Gynradd Llanbrynmair
Grŵp Alys, Ysgol Gynradd Carno

Gwehyddu Bl. 3 a 4 (Gwaith Grŵp)

Grŵp Derwen, Ysgol Bro Hyddgen
Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Gwehyddu Bl. 5 a 6 (Gwaith Grŵp)

Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Penwisg Bl. 6 ac iau

Elsi Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Ruby Cook, Ysgol Bro Hyddgen

Pyped Bl. 2 ac iau

Gwenlli Crowley, Ysgol Gynradd
Glantwymyn

Pyped Bl. 3 a 4

Llinos Edwards, Ysgol Gynradd
Llanbrynmair

Pypedau (Gwaith Grŵp) Bl. 2 ac iau

Grŵp Elgan, Ysgol Gynradd Carno
Grŵp Betsan, Alys a Phoebe, Ysgol Gynradd
Carno
Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Pypedau (Gwaith Grŵp) Bl. 3 a 4

Parti Aron, Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Gwaith Creadigol 3D Bl. 2 ac iau (Unigol)

Gwenlli Crowley, Ysgol Gynradd
Glantwymyn
Mared Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4 (Unigol)

Ffion Haf Davies, Ysgol Bro Hyddgen
Elis Crowley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Llinos Edwards, Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Gwaith Creadigol 3D Bl. 5 a 6 (Unigol)

Heledd Edwards, Ysgol Gynradd
Llanbrynmair
Elsi Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Ania Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gwaith Creadigol 3D Bl. 2 ac iau (Gwaith Grŵp)

Grŵp Bl 1, Ysgol Gynradd Carno
Parti Ruby, Ysgol Gynradd Llanbrynmair
Grŵp ni, Ysgol Gynradd Carno

Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4 (Gwaith Grŵp)

Grŵp Afallen, Ysgol Bro Hyddgen
Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Gwaith Creadigol 3D Bl. 5 a 6 (Gwaith Grŵp)

Grŵp Ania, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Grŵp Mabon Hedd, Ysgol Gynradd
Glantwymyn
Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Creu Arteffact Bl. 3 a 4

Gwern Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Jac Lewis Jones, Ysgol Gynradd
Glantwymyn

Creu Arteffact Bl. 5 a 6

Mabon Siôn, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Gwenno Wigley, Ysgol Gynradd
Glantwymyn

Serameg / Crochenwaith Bl. 3 a 4

Cara Pughe, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Gemwaith Bl. 2 ac iau

Gwenllian Ashton, Ysgol Gynradd
Llanbrynmair

Gemwaith Bl. 3 a 4

Ffion Haf Davies, Ysgol Bro Hyddgen
Ruby Cook, Ysgol Bro Hyddgen
Mari Grace Lloyd, Ysgol Gynradd
Glantwymyn

Gemwaith Bl. 5 a 6

Gwenno Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn
Elsi Jones, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Dylunio a Thechnoleg Bl. 2 ac iau

Annes Wigley, Ysgol Gynradd Glantwymyn

Dylunio a Thechnoleg Bl. 3 a 4

Gwern Wigley, Ysgol Gynradd
Glantwymyn

Codi Calon



Noni Wyn, Cil-y-Winllan gyda'i enfys lliwgar



Arwydd yn Darowen gan Annes, Elgan, Eben ac Ifan, Tanllan



Gwenlli, Elis a Magi, Tŷ Gwyn, Uwchgyrreg

Ydych chi am anfon cyfarchion neu ddiolch i rywun arbennig?

Nid ydym yn cynnwys dyddiadur yn y papur ar hyn o bryd, ond mae hwn yn gyfnod ble mae'r gymuned wir yn tynnu at ei gilydd mewn sawl ffordd bositif. Felly os hoffech anfon neges o ddiolch i unrhyw un, neu gyfarchion ar achlysur arbennig na ellir ei ddatlu ar hyn o bryd, yna mae croeso i chi wneud hynny. Yn arferol, codir tâl o £5 am ddiolchiadau, gyda chyfraniadau mwy yn cael eu nodi yn y rhestr rhoddion, ond ar yr achlysur yma, mae croeso chi wneud hyn yn rhad ac am ddim gan nad oes cost argraffu. Anfonwch eich negeseuon at Siân Evans, Erw'r Llan, Penegoes, Machynlleth (01654 703603) neu at sianmwyars@outlook.com

Llanbrynmair

Clwb y Ddôl

Dydd Sadwrn 7fed o Fawrth cynhaliwyd te Cymreig er budd Clwb y Ddôl. Agorwyd y cyfarfod gan Margaret E. Jones a daeth nifer dda o drigolion lleol ac aelodau ynghyd. Roedd yno stondinau bric a brac, cacennau a chystadleuaeth dyfalu pwysau'r gacen hyfryd. Paratowyd te prynhawn bendigedig gan wragedd y fro. Diolchwyd iddynt ac i bawb gyfrannodd tuag at y stondinau ac yn arbennig i Mrs Frances Fenwick am drefnu'r diwrnod ac i Mr Tom Allday a Mr John Daniels am ofalu am y raffl. Gwnaed £401 er budd Clwb y Ddôl.

Eisteddfod yr Hen Gapel

Yn anffodus, ni fydd Eisteddfod yr Hen Gapel yn cael ei chynnal ar Gorffennaf 11eg eleni. Gobeithio y cawn eich croesawu yn ôl flwyddyn nesaf.

Cydymdeimlad

Gyda chwithdod daeth y newydd am farwolaeth Mr Maldwyn Davies, Pentremawr gynt, ond oedd wedi ymgartrefu yn Bodlondeb, Llanidloes ers tair blynedd bellach. Cydymdeimlwn â'r cysylltiadau i gyd yn eu hiraeth o'i golli. Dyma deyrnged iddo gan y teulu.

* * *

Ar ddydd Sul, 5 Ebrill, yn ysbyty Bronglais, bu farw Maldwyn Davies (gynt o Bentremawr) yn 75 mlwydd oed, wedi gwaeledd byr. Rhoddwyd i orffwys mewn gwasanaeth i'r teulu agosaf ym mynwent y Stae ar 14 Ebrill dan ofal y Parchedig Iestyn ap Hywel.

Cafodd Maldwyn ei eni yn 1945 yn fab i'r diweddar David ac Elizabeth Davies, Aberbiga, Penfforddilas - yr wythfed o naw o blant, ac yn frawd i Ann, Mair, John, Martha, Margaret, Evan a'r diweddar Gwen ac Iona. Cafodd ei eni a'i fagu yn Aberbiga gan weithio ar y fferm gyda'i frawd, Evan, cyn symud i fyw i Bentremawr, Llanbrynmair yn ystod y 1960au pan fu'n rhaid gadael Aberbiga o ganlyniad i gynllun cronfa ddŵr Clywedog am fod y fferm deuluol yn cael ei boddi.

Wedi iddo adael yr ysgol, bu'n weithiwr tawel a diwyd gartref ar y fferm ac roedd wrth ei fodd

yn gweithio gyda'r gwartheg a'r defaid. Bob tymor wna byddai'n trafailio'n ddyddiol i fyny ffordd Pandy i Nantcarfan, fferm arall y teulu, ar ei dractor 135 a'i gi ffyddlon tu ôl iddo, i fwydo'r defaid. Roedd o wastad yn deud bod "y còg 'ma byth yn rhoi pethe gadw" am ei frawd, Evan, wrth iddo ddefnyddio offer y fferm. Ond roedd ganddo gof aruthrol ac roedd Maldwyn yn siŵr o gofio lle roedd popeth wedi cael ei adael!

Treuliodd lawer orig hapus fin nos yng nghwmni teuluoedd yr Esgair a Brynaire Uchaf. Bu plant yr Esgair, Stephen a Jayne Sheridan, yn ei gwmni sawl tro wrth geisio dysgu'r *Highway Code* iddo cyn ei brawf gyrru car, ac wedi iddo basio roedd o wrth ei fodd. Roedd hyn yn galluogi iddo fynd am dro bach i ffermdai cyfagos am sgwrs fin nos. Wedi iddo ennill mwy o hyder, mentrodd ymhellach i ymweld â theulu a ffrindiau. Wrth gofio am eu hewythr, mae Aled ac Anwen - y ddau wedi'u magu yn ei gwmni ym Mhentremawr - yn cofio sawl tro trwstan amdano ar y fferm, gan gynnwys un stori arbennig amdano'n croesi defaid dros y rheilffordd flynyddoedd yn ôl! Bydd y storïau doniol hyn yn aros yn y cof am byth.

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, dirywiodd iechyd Maldwyn wedi iddo ddiodeo o'r cryd cymalau ac yna'n ddiweddarach o'r Clefyd Parkinson. Aeth gwaith caled y fferm yn drech nag o yn y diwedd, a'r unig bethau roedd o'n gallu gwneud erbyn hyn oedd mynd am dro ar y beic i weld beth oedd yn mynd ymlaen a bwydo'r cŵn.

Treuliodd lawer awr yn gwrando ar gerddoriaeth ar y radio a'r teledu, ac roedd yn mwynhau mynd yn ôl i'r Stae i fynychu cyngerdd. Ymfalchiodd hefyd yn llwyddiant ei nai, Aled, ym myd y canu.

Symudodd i gartref preswyl Bodlondeb, Llanidloes yn 2017, a bu'n hapus iawn yno gan dderbyn pob gofal a charedigrwydd. Pan deimlai'n weddol, âi am dro bach yn y fan efo Bryn, ei frawd yng nghyfraith, i weld beth oedd yn digwydd ar y ffermydd cyfagos.

Diolch arbennig i'r gofawyr ym Modlondeb, a'i deulu agosaf, am eu gofal tyner ohono dros y blynyddoedd diwethaf.

Ysgol Llanbrynmair

Ymddiheuriadau am y diffyg newyddion o'r ysgol ar gyfer rhifyn mis yma o'r Blewyn. Roedd yr ysgol ar agor am wythnos yn dilyn anfon newyddion mis diwethaf cyn i ni orfod cau, a hynny ar fyr rybudd.

Clwb yr Urdd

Yn ystod y tymor mae clwb yr Urdd wedi cwrdd bob nos Fawrth er mwyn rhoi cyfleoedd i aelodau o'r Urdd baratoi ar gyfer amrywiaeth o gystadlaethau. Unwaith eto eleni cafodd pob aelod gyfle i gystadlu mewn cystadlaethau celf a chrefft, boed yn unigol neu mewn grŵp. Yn dilyn siom o orfod canslo'r Eisteddfod Cylch eleni penderfynwyd parhau gyda'r beirniadu'r adran Celf a Chrefft.

Diwrnod y Llyfr

Doedd dim lle i ni gynnwys lluniau'r disgyblion wedi gwisgo fyny ar ddiwrnod y llyfr yn rhifyn y Blewyn mis Mawrth felly dyma ychydig o luniau i chi.



Helpa Wyau Pasg

Cyn i'r ysgol gau roedd cyfle i'r disgyblion fwynhau helpa wyau Pasg o amgylch yr ysgol. Roedd yr wyau wedi eu gwsgaru ymhob rhan o'r ardal allanol ac roedd yn dipyn o gamp trio dod o hyd i bob un. Diolch i blant y Cylch Meithrin am ddod draw i'n helpu i chwilio.



Cogurdd

Yn y rhifyn diwethaf fe wnaethom longyfarch y disgyblion wnaeth gystadlu yng nghystadlaethau Cogurdd eleni. Dyma lun o'r 9 disgybl gyda'u cebabs ffrwythau blasus dros ben. Llongyfarchiadau i Siwan Ashton ar ddod yn gyntaf eleni.



Dysgu o adref

Bellach mae'r disgyblion yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn mwynhau dysgu o adref. Mae dosbarth y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur yn cwblhau gweithgareddau'r Pasg ac mae disgyblion dosbarth Ms Jervis a Mrs Nicholls wedi bod yn cwblhau tasgau digidol ynghyd â thasgau creadigol ac wedi e-bostio lluniau at yr athrawon. Rydym wrth ein boddau yn derbyn y lluniau ac felly wedi dewis rhai i rannu gyda chi yma. Diolch i Jane ein cogyddes am baratoi pecyn o ryseitiai i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 goginio adref gyda'u rhieni. Yn y lluniau gwelir bod y disgyblion wrthi yn mwynhau dysgu sgiliau coginio adref gan ddatblygu sgiliau llythrennedd drwy ddarllen ryseitiai a rhifedd wrth bwysio cynhwysion.

Dyma ychydig o luniau sydd wedi eu hanfon yn ôl at yr athrawon o'r plant yn mwynhau dysgu adref.



Codi Calon



Nansi Fychan a'i tri gair pwysig – Ffydd, gobaith, cariad



Nel a Welan, Glasfryn, Cemaes



Hari Arthur a Morgan Jac, Hendreseifion yn brysur yn peintio




Ysgol Carno

Dysgwyr Digidol

Yng nghanol holl ansicrwydd yr wythnosau diwethaf mae plant Ysgol Carno wedi dangos eu bod yn unigolion annibynnol, hyderus, creadigol a mentrus. Mae hi wedi bod yn bleser gweld lluniau ohonynt yn gweithio'n galed adref dros y cyfnod ansicr yma.

Mae'r disgyblion wedi llwyr daflu eu hunain i fod yn ddysgwyr annibynnol wrth gwblhau amrywiaeth eang o dasgau adref a'u rhannu gyda'r athrawon ar blatfformau digidol amrywiol. Hyfryd yw gweld y plant yn trafod eu gwaith ac yn helpu ei gilydd yn ddigidol.

Dyma ambell lun o'r plant yn cwblhau eu tasgau mathemateg a'n creu llyfr sgrap o'u cyfnod adref.



Hyfforddiant tenis

Buon ni'n ffodus i gael cynnig hyfforddiant tenis gan Paul Rowe o 'We can do Tennis'. Er mai dwy sesiwn yn unig gawson ni oherwydd yr amgylchiadau, mwynheudd y plant yn fawr ac maent i gyd yn edrych ymlaen at ail afael mewn raced yn fuan!



Bwydo'r Adar

Bu dosbarth Miss Rowlands yn brysur yn creu abacws bwytdwy ar gyfer yr adar. Bu cryn fesur, llifo a tharo cyn gorffen y campwaith!



Hoci

Bu disgyblion Bl. 5 a 6 draw yn Y Drenewydd yn cymryd rhan mewn twrnamaint hoci. Chwaraeodd y tîm yn wych gan golli un gêm yn unig. Diolch i Mrs Siân Griffiths am ddod i'r ysgol yn wythnosol i hyfforddi'r plant.

Cemaes

Mrs Gill Jones, Brynmeurig
01650 511276
richardagill@live.co.uk

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Magwen, Rhyd yr Aderyn ar ddatlu ei phen-blwydd yn 70 yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu, Magwen.

Selebs Cemaes

Y mis diwethaf gwelsom Rhydian Pughe ar raglen Cân i Gymru, S4C a'r mis yma braf oedd gweld Phillip a Heledd Dancer, Tan y ffordd ac Isabel y Siop ar raglen Ffermio. Pwy fydd yn rhoi Cemaes ar y map y mis nesaf tybed?

Diolch

Diolch i bawb ohonoch sydd wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn i'r gweddill ohonom gael aros adre a cheisio osgoi'r firws Corona. Diolch arbennig i Isabel, Eleri a Nadine yn Nhŷ Cemaes am eu gwaith diffino

yn cadw cyflenwad o fwyd ar ein cyfer ac yn ei ddsbarthu i'r pentrefi a'r cymunedau cyfagos. Mae'r siop ar agor bob dydd heblaw dydd Mercher a dydd Sul; 9-4 yn ystod yr wythnos, a 9-12 ar ddydd Sadwrn. Gallwch archebu a thalu am eich nwyddau dros y ffôn (01650 511 261) neu maent yn fodlon cludo i'r pentrefi cyfagos.

Diolch hefyd am y fan bost sy'n galw yn y pentre' rhwng 10.15 ac 11.00 bob bore dydd Mawrth a dydd Gwener. Mae nifer wedi bod yn gofalu am yr henoed a chymdogion mwy bregus yn ein plith neu'n cyfrannu mewn rhyw ffordd yn y frwydr yn erbyn y salwch yma. Diolch i Colin a Gwerfyl, cwmni Tai Dyfi, am gefnogi staff lleol y GIG drwy gyfrannu masgiau i helpu eu hamddiffyn rhag y firws. Dyma ychydig o gefndir eu cymwynas arbennig gan Gwerfyl:

"Clywsom trwy aelodau'r teulu fod prinder PPE (Offer amddiffynnol personol) ar gael i staff Tîm Gofal Iechyd Cymunedol Bro Ddyfi. Fe wnaethom gysylltu â Sinead Sullivan sy'n gweithio o fewn y tîm cymunedol a nodi bod gennym oddeutu cant o fasgiau FFP3 (sy'n fasgiau sy'n cael eu defnyddio mewn ambell leoliad GIG, ac ugain sbectol diogelwch

amddiffynnol. Mi fydd yr offer yn cael eu defnyddio gan staff Ysbyty Gymunedol Bro Ddyfi a'r Tîm Cymunedol. Rydym yn hapus iawn o fod wedi gallu helpu staff lleol y GIG yn y ffordd fach yma".



Nel Owen Harding gyda'r offer

Pwy sy'n cofio'r arwerthiant yma?

Diolch yn fawr i Kathryn Ellis (Kit) am y poster yma, oedd yn berchen i'w diweddar mam, Gwen Davies, Dolcletwr, Taliesin. Pwy arall sy'n cofio'r diwrnod yma yn 1952?

DOLFONDDU
Cemmaes. Close to the village, 2 miles Cemmaes Road, 7 Machynlleth.

On **THURSDAY, JUNE 26th, 1952**

Important Dispersion of
LIVE and DEAD FARMING STOCK and HOUSEHOLD FURNITURE
by order of Mrs. Lloyd-Roberts and Mr. W. T. Williams.
Comprising:

60 Young Welsh EWES
with forward lambs by Wiltshire Rams.
20 Welsh Wether Hogs

THE ATTESTED HERD OF
37 SHORTHORN, AYRSHIRE, CATTLE
and **CROSSBRED**
Viz: 4 Cows in full milk, 5 Barren Cows, 15 grand 2-year-old Heifers, Strong 3-year-old Bullock, 12 Weanlings, 6 to 10 months old.

Valuable Vanner Mare
Smart 2-year-old 11.2 hands PONY
9 Ducks, Poultry Houses, etc.
A Collection of
MODERN FARM IMPLEMENTS
including: 2 Tractors, Hay Loader, Corn Drill and other Harvesting and Cultivating Implements, Waggon, Carts.
Also a quantity of
HOUSEHOLD FURNITURE
including: Valuable items in Old Mahogany and Oak, Settees and Easy Chairs, Bedsteads and Bedroom Furnishings, Silver and Plated Goods, Lustre Ware, Brass and Copper Items, Glass and China, Kitchen Requisites, Dairy Vessels, etc.
Sale to commence at One o'clock.
Furniture at 8 p.m.
Refreshments provided by Mr. J. S. Williams, Grapes Inn, Welshpool.

Morris, Marshall & Poole, F.A.I.
Chartered Auctioneers, Welshpool, Newtown and Aberystwyth.

Codi Calon



Erin a Gwion, Llys Mynach, Talerddig gyda'u enfys lliwgar yn y ffenest.



Beca a Medi Tudur, Maesteg, Glantwymyn

Dad i 'nabod ...

Y panel golygyddol. Bydd y gweddill yn ymddangos fis nes.



Enw: Manon Wyn

Aelod o'r panel ers 2 flynedd a hanner

Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?

Mae hwn yn gwestiwn anodd achos allai ddim dychmygu fy hun yn byw nôl mewn hanes... dwi'n dibynnu gormod ar y *mod-cons* - 'sŵn i'n cael trafferth byw heb fy ffôn a'n laptop - a *facetime* ar hyn o bryd!

Beth fyddai dy benwythnos perffaith?

Penwythnos i ffwrdd yn rhywle gyda'r merched ('de chi siŵr yn gwybod pwy 'den nhw!). Y rhai mwyaf diweddar oedd i Gaerdydd 'nôl ym mis Rhagfyr i wyllo sioe 'Les Mis', ac i Ddilyn fis Chwefror adeg y rygbi - lot o chwerthin nes oedd ein hochre ni'n brifo! Mae 'na sawl penwythnos gwyach wedi bod dros y blynyddoedd a

'de ni gyd methu aros am y nesa' pan fydd y cyfnod yma drosodd - mae'r grŵp *what's app* mewn trafodaeth yn barod!

Oes gen ti unrhyw arferion drwg?

Mae gennai ddigon dwi'n siŵr! Dwi'n berson trefnus iawn, sy'n gyrru'r rhai llai trefnus o'r criw yn bananas achos dwi'n licio trefnu a gwybod be sy'n digwydd a phryd... mae'n siŵr y bydde nhw'n dweud 'mod i'n rhy drefnus ar adegau!

Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.

I rheina sydd ddim yn gwybod, dwi'n gefnogwr mawr o'r Scarlets, a 'nôl yn Ebrill 2000 ges i'r fraint

o fod yn fascot i Glwb Rygbi Llanelli fel roedden nhw ar y pryd yn erbyn Castell-Nedd. Roedd cael rhedeg allan gyda'r capten, Wayne Proctor, o flaen dros 10,000 o bobl ym Mharc y Strade yn brofiad na'i fyth anghofio.

Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?

Does 'na ddim byd llawer dwi'n difaru mewn bywyd. Dwi'n credu'n gryf bod hi'n well mynd amdani a difaru'r pethe 'de chi wedi'u gwneud yn hytrach na'r pethe wnaethoch chi ddim.

Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?

Fel llawer 'dwi adre o'r gwaith ar hyn o bryd ond mae 'na ddigon



i nghadw i'n brysur. Mae'r diwrnodau'n pasio'n gyflym rhwng gwneud gwaith ysgol, cadw trefn ar y tŷ, a hefyd helpu allan efo'r defaid a'r wŷn.

Enw: Gwenfair Glyn

Aelod o'r panel ers 1980

Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?

Oes Y Tywysogion Cymreig. Ond byddai amodau! - Mi fyswn wrth fy modd yn cael gweld yr holl gestyll Cymreig yn eu hanterth - Castell y Bere, Carreg Cennen, Dolbadarn ayb. Cael cyfle i gael cipolwg ar fywyd pob dydd yn y cyfnod hwn - gweld y gwisgoedd, y dodrefn, a'r diwylliant. Ar y llaw arall fe faswn am osgoi'r rhyfela a'r lladd, y salwch a'r anghyfartaledd cymdeithasol!

Beth fyddai dy benwythnos perffaith?

Treulio penwythnos ar Ynys Enlli gyda'r gŵr, Glyn Tomos, a'r holl blant a'u partneriaid a'r Wyrion. Treuliodd Glyn a minnau ein mis mêl ar Enlli, nôl yn 1979. Byddai'n braf hefyd i Mali Enlli, yr wyres gael treulio amser yn dod i'nabod y baradwys tu hwnt i'r Swnt!

Oes gen ti unrhyw arferion drwg?

Dechrau gormod o jobsus ar yr



un pryd, a thrio jyglo pob un - yn lle gorffen un yn iawn!

Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.

Roeddwn i wedi dechrau cael gwersi telyn efo Rhiaid Bebb, ond oherwydd amgylchiadau cymhleth, bu'n rhaid rhoi gorau

iddynt. Rwy'n gobeithio medru ail afael yn y gwersi eto yn y dyfodol.

Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?

Astudio Archaeoleg yn y Brifysgol. Byddwn wrth fy modd yn canfod trysorau Celtaidd yn

lleol, rhywbeth tebyg i Darian Tal-y-Llyn, a mynnu wedyn eu bod yn cael eu harddangos yn lleol.

Dwi wedi awgrymu sawl gwaith yr hoffwn gael 'metal detector' yn anrheg Nadolig, ond does r'un wedi cyrraedd hyd yma!

Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?

Garddio, plannu a mwynhau'r cyfle i fod allan yn yr awyr iach. Mae digon o amser rŵan i gynllunio'n iawn, a phlannu pob planhigyn yn gywir, yn y safle iawn, gyda digon o wrtaith. Does dim rhaid poeni am brynu planhigion newydd - jest gofalu am y rhai sy gen i'n barod yn well!! Byddaf yn plannu hadau tomato'n fuan, ac yn meddwl tybed a fyddai gan Bwyllgor Sioe Aberhosan ddiddordeb mewn trefnu Sioe 'virtual' ar y we, gyda thrigolion yr ardal yn medru danfon lluniau o'u cynnyrch i'r gystadleuaeth - (dim lluniau o google wrth gwrs!)



Enw: Llifon John Ellis

Aelod o'r panel ers 2015

Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?

Fel athro Cymraeg sy'n mwynhau trin a thrafod cerddi Dafydd ap Gwilym ac yn un sydd bellach yn byw tafliaid carreg o Frogynin, buaswn wedi mwynhau byw yn ystod y cyfnod pan oedd ef yn ei flodau (tua 1340au). Rhywbeth rwy'n ei weld yn rhwystredig iawn ydy nad oes modd bod yn hollol sier o unrhyw ffaith amdano felly byddai cael rhyw awran neu ddwy yn ei gwmmi'n handi dros ben!



Beth fyddai dy benwythnos perffaith?

Fy mhenwythnos perffaith fyddai nos Wener dawel o ymlacio, brecwast bendigedig fore Sadwrn mewn bwyty hyfryd ger glan môr Aberystwyth, mynd i ddilyn fy nhrwyn i rywle newydd drwy'r p'nawn cyn cael swper blasus yng nghwmni ffrindiau gyda'r nos. Fel athro cydwybodol, mae'n siwr y dylwn i fod yn marcio ddydd Sul....!!

Oes gen ti unrhyw arferion drwg?

Tydw i ddim yn gwneud digon o ymarfer corff!

Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.

Mae gen i ffobia mwya ofnadwy

o adar a hynny ers y dyddiau pan oeddwn yn helpu fy ewythr Ifan ar y fferm gyferbyn â 'ngartre. Roedd ganddo tua dwsin o wyddau o gwmpas lle ac roedden nhw'n mynnu rhedeg ar fy ôl!

Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?

Dw i'n difaru f'enaid na wnes i wrando ar mam pan oedd hi'n trio'i gorau i fy nghael i fynd i gael gwersi piano pan yn blentyn. Tydi hi ddim yn rhy hwyr mae'n siwr..!

Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?

Wel dw i'n gobeithio cael priodi ym mis Medi felly mae llawer o fy amser hamdden i (a Nia wrth gwrs!) yn mynd ar y trefniadau! Croesi bysedd!

Enw: Lydia Jones

Aelod o'r panel ers 1992

Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?

Yr Almaen yn yr 1920au yn ystod Gweriniaeth Weimar a'r blynyddoedd cythryblus yn dilyn hynny pan ddaeth y Natsïaid i rym. Mi fydda i'n cwestiynu yn aml tybed a fyddwn i wedi cael fy hudo gan yr holl beth (ac yn ofni'r ateb), ond dwi'n gobeithio'n fawr y byddwn i wedi gweld y golau cyn dod yn gefnogwr pybyr.

Beth fyddai dy benwythnos perffaith?

Unrhyw benwythnos pan mae Man Utd yn ennill a Lerpwl yn colli.

Oes gen ti unrhyw arferion drwg?

Mae 'na rywbeth sy'n fy ngorfodi i fyrstio 'bubble wrap'. Dwi wrth fy modd efo'r swigod mawr sy'n dod mewn bocsys weithiau ac yn rhoi'r plastig ar y llawr cyn neidio arno. Mae'n clecian fel gwn.

Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.

Roeddwn yn aelod o dîm beicio fu'n cynrychioli Powys ym mhencampwriaeth beicio ysgolion Cymru. Aeth llond bws o Fachynlleth i'n cefnogi yn y ffeinal yn Sain Tathan, ger Caerdydd a channoedd o bobl yn ein gwyllo yno. 10 oed oeddwn i ar y pryd ond yn feiciwr o fri! Wnaeth fy mrawd stwffio'i



hun efo chips yn Aberhonddu ar y ffordd adre, a bu'n sâl ar y palmant. Sôn am gywilydd!

Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?

Tua 30 mlynedd yn ôl, oedd Tammy Wynette, fy hoff gantores, yn canu yn Theatr y Grand Abertawe. Pan ffonies i am docynnau, dim ond 2 oedd ar ôl gyda 'obstructed view'. A finau yn fy ugeiniau, roeddwn yn meddwl y deuai cyfle i'w gweld eto, ond ches i 'rioed gyfle arall i'w gweld. Bu farw Tammy yn 55 oed yn 1998.

Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?

Fawr o wahaniaeth o ran gwaith gan fy mod yn gweithio adre yn llawn amser ers tro. Fin nos, gwneud ychydig o Zentangle, sortio lluniau, darllen.

Enw: Gill Jones

Aelod o'r panel ers llawer blwyddyn

Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?

Ar un llaw fyddwn i ddim isie mynd yn ôl mewn amser am fod bywyd yn llawer haws arnom ni heddiw nag oedd hi i'n cyndeidiau, ond fyddwn i ddim isie byw yn y dyfodol chwaith - mae technoleg heddiw yn ddigon o her i mi! Rydw i wedi meddwl erioed fod fy nghenhedlaeth i yn lwcus iawn - heb ddiodef rhyfeloedd byd ayb ond mae'r aflwydd Corvid 19 yn rhywbeth yr hoffwn petai'r byd wedi gallu ei osgoi.

Beth fyddai dy benwythnos perffaith?

Bwyd da a chwmni difyr ffrindiau a theulu. Be well ydych chi angen?

Oes gen ti unrhyw arferion drwg?

Na, dwi'n berffaith! Wel falle 'mod i braidd yn ddiog ac yn o'r hoff o siocled, ac mae gen i

duedd i brynu pethe dwi ddim angen yn siop yr Hosbis!

Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.

Fedra i ddim meddwl am ddim. Does gen i ddim cyfrinachau, dim talentau cudd.

Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?

Fe ganodd Edith Piaf, "Je ne regrette rien". Hoffwn i fod wedi bod yn fwy hyderus pan oeddwn i'n iau ond heblaw am hynny dydw i ddim yn difaru dim chwaith. Rydw i'n fodlon fy mynd, yn hapus a, hyd y gwn i, yn iach.

Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?

Rydw i wedi bod yn clirio 'chydig ar yr ardd, gwneud gwely'n barod ar gyfer tyfu llysiau a gwneud yn siŵr fod bol Rich yn llawn dros yr ywina.



Dinas Mawddwy

Mrs Gwyneth Jones, Lawnt y Plas
01650 531270 /
gwynethjones442@btinternet.com

Gwellhad Buan

Gobeithio fod pawb yn cadw'n iach. Mae amryw wedi bod i mewn ac allan o'r ysbty yn ddiweddar, dymunwn wellhad buan i chi gyd.

Llongyfarchiadau

Ar nodyn hapusach mae Idris a minnau yn hen-daidd a hen-nain unwaith eto. Ganed bachgen bach cyntaf-anedig i Arwel a Kate yn Aberdyfi, sef Tedi Arthur. Mwynhewch y magu gan obeithio y cawn ei weld yn fuan. Hefyd llongyfarchiadau i Arwel ar ei swydd newydd fel gyrrwr trên - dilyn ôl troed ei ewyrth Aled!

Llongyfarchiadau hefyd i Harri Hughes, Bronhaul ar gael swydd gyda chwmni Siemens yn Chippenham yn yr adran 'Electrical Plant' fel Peiriannydd Graffeg. Y mae'n gobeithio dechrau ganol mis Awst os fydd popeth yn iawn.

Gŵyl y Gwylliaid

Yn anffodus o dan yr amgylchiadau presennol, bydd Gŵyl y Gwylliaid yn cael ei ohirio ar y 4ydd o Orffennaf 2020 i ddyddiad arall. Cymerwch ofal ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn fuan.

Darowen

Nora Wigley, Lleiniau
rhos.dyrnogmail.com@email.com

Genedigaeth

Ar brynawn Sul, y 5ed o Ebrill, ganwyd merch fach i Grace Morton Parker a Richard, Fronllys, Darowen. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Cyngor Cymuned Mawddwy

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor nos Fercher 11eg o Fawrth 2020 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy. Roedd 8 o Gyngorwyr yn bresennol ynghyd â John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a'r Clerc.

Trafodwyd y gwaith sydd ei angen yn yr Hen Fynwent a'r Tŷ Hers, ac adroddwyd fod camau mewn llaw i sefydlu ymddiriedolaeth newydd. Roedd enwau wedi eu rhoi gerbron, ac roedd gobaith y byddai hyn wedi'i sefydlu erbyn ein cyfarfod nesaf.

Trafodwyd yr angen i gael biniau cadw graean newydd mewn rhai mannau, ac adroddwyd fod hyn yn bennaf oherwydd nad oedd y lori graeanu yn mynd ar rai ffyrdd bellach, yn arbennig drwy'r Cytir. Gwelwyd y dylid gofyn am finiau yn rhad ac am ddim yn y lle cyntaf oherwydd y sefyllfa, a dywedodd Cyng. John P Roberts y byddai'n gwneud y cais yma. Os oedd angen mynd ymlaen, cytunwyd i'r pryniant, sef un ar riw Abercywarch, a'r llall hanner ffordd fyny rhiw y Cytir uwchlaw mynedfa Tŷ Gwyn.

Roedd siom nad oedd unrhyw beth wedi'i wneud am y ceblau o hen system deledu Dinas, a oedd angen sylw, ac a allai fod yn beryglus. Gwelwyd fod angen ysgrifennu eto a chael cyfarfod ar y safle gyda'r Adran Cefnffyrdd. Cytunodd Cyng Arfon Hughes a'r Cyng Hedd Pugh i wneud hyn.

Cyfeiriwyd at waith ffensio llain o dir o dan y fynwent yn y Dinas, a gwaith ym mynwent Llanymawddwy. Adroddwyd am waith taclus dros ben a chytunwyd i dalu Dafydd Edwards Ty'n Twll yn unol â'r hyn a gytunwyd.

Roedd bwrdd gwybodaeth ym Mallwyd a ger y Llew Coch angen eu trwsio. Trafodwyd hyn a chytunwyd ar gost i'w trwsio. Cytunodd y Cyng. Arfon Hughes i ymdrin â hyn.

O ran materion cynllunio, roedd un cais wedi'i ddsbarthu ers y cyfarfod diwethaf, sef adeiladu tŷ ger Cefn Gwyn Hall, Aberangell. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cais yma. Trafodwyd yr angen i roi mwy o wybodaeth wrth roi sylwadau, a phenderfynwyd gwahodd Jonathan Cawley, Pennaeth Adran Cynllunio'r Parc Cenedlaethol atom i'r cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd ymuno ag Un Llais Cymru unwaith yn rhagor ar gyfer 2020-21. Adroddwyd am y ceisiadau i law am gyfraniadau ariannol, a chytunwyd fel a ganlyn;

Eisteddfod y Groglith, Dinas Mawddwy - £600
Ysgol Feithrin Dolybont - £800
Undeb Ysgolion Sul Dinas Mawddwy - £250
Ambiwlans Awyr Cymru - £300



Cyfeiriwyd at y gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael i gyngorwyr, ac adroddodd y Clerc am yr hawl sydd gan bob cynghorydd i hawlio £150 am yn y flwyddyn. Cadarnhawyd nad oedd gan unrhyw gynghorydd ddymuniad i'w hawlio, ond yn hytrach ei gyfrannu at waith yn y gymuned.

Dosbarthwyd asesiad risg a oedd wedi ei baratoi gan y Clerc mewn drafft ar gyfer Cyngor Cymuned Mawddwy. Cytunwyd i'r cynnwys, a gofynnwyd i ychwanegu fod angen i gyngorwyr fynychu cyfarfodydd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad pan fyddai hyn ar gael.

Nodwyd lythyr diweddar gan Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn amlinellu rhaglen waith ar Ffordd Nantyrhenfaes a rhaglen arwyddo llwybrau cyhoeddus yn ardal Dinas Mawddwy. Ymysg nifer o faterion Priffyrdd eraill, nodwyd difrod yn dilyn glaw ar y ffordd sy'n arwain at fferm Ty'n y Braich. Bu ambell dirlithriad ar ffyrdd yr ardal yn dilyn y tywydd difrifol yn ddiweddar, ac angen gwaith tacluso gan yr Adran Briffyrdd. Roedd dŵr yn rhedeg ar Riw Landrin, ac yn methu'r cylfert. Gofynnwyd a oedd angen cylfert arall, gan mai canlyniad hyn yw bod rhew ar adegau yn y gaeaf, a oedd yn eithriadol beryglus i ddefnyddwyr y ffordd. Hefyd, roedd yna dwll ar wyneb y ffordd ar Bont Wen, Aberangell. Yn ogystal, adroddwyd fod y Cyng Hedd Pugh a John P Jones wedi cyfarfod gydag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynghlŷn â chael 'ramps' ar y bont yn Dolybont.

Nodwyd y dylid ystyried cyfraniadau i'r neuaddau pentref yn ôl yr arfer, ynghyd a chydabyddiaeth am eu defnydd. Penderfynwyd fel a ganlyn;
Neuadd Dinas Mawddwy - £1000
Neuadd Aberangell - £500

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, 20fed o Fai yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7:30yh.



Pennal

Cymorth i Gymuned Pennal

Balch yw dweud bod dros ugain o bobl Pennal a Chwrt wedi gwirfoddoli i grŵp Cymorth Pennal ac yn cynnig siopa, nŵl presgripsiwn neu neges arall i drigolion sy'n hunan-ynysu ar hyn o bryd. Mi ddylai fod pawb wedi cael nodyn drwy'r drws ynglŷn â hyn ond os oes angen cymorth ar rywun ffoniwch 01654 370002 neu cysylltwch â Chanolfan Pennal ar y gweplyfr neu drwy e-bostio canolfanpennal2012@hotmail.co.uk. Cymerwch ofal bawb.

Canolfan Pennal

Diolch i fawr i bob un sydd wedi cefnogi'r Ganolfan drwy brynu cerdyn raffl eleni. Mae ambell un ar ôl o hyd os oes diddordeb. Byddwn yn eu cadw'n saff i dynnu sawl raffl â'i gilydd pan ddaw'r cyfle. Ond ar nodyn hapusach, er na fu Hwyl y Pasg eleni, rhoddwyd sialens i'r plantos wneud het Basg a phostio'u lluniau ar ein gweplyfr. Dyma i chi luniau hyfryd. Diolch i bob un, plant Pennal, Cwrt a thu hwnt am eu lluniau o'u hymdrechion gwych!

Diolch hefyd i'r ddwy gwningen Basg brysur, Rebekah ac Edwina aeth o gwmpas y lle yn ofalus yn rhannu'r wyau Pasg oedd gennym ar ran y Ganolfan. Da iawn chi!



Cyngor Cymuned Pennal

Adroddiad o gyfarfod nos Fercher, Chwefror 26ain 2020. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Owen, Cyngor Gwynedd; Ken Griffiths a Rhys Parry. Materion yn Codi:

- Gan Bwyll - Derbyniwyd ateb gan Sarjant Melanie Brace, Heddlu Gogledd Cymru yn ymddiheuro am yr oedi yn yr ateb ynglŷn â'r damweiniau diweddar ger Marchlyn, Pennal. Gofynnwyd am fap yn dangos y lleoliad ar yr A493. Byddai'r clerics yn anfon map o'r lleoliad.
- Cylch y Marian - Bydd y gwaith wedi'i orffen erbyn diwedd mis Mawrth.
- Cyllideb - Roedd y gyllideb wedi ei thrafod a'i derbyn ym mis Tachwedd, ond roedd yn rhaid gwneud newidiadau a'i hadolygu. Derbyniwyd hyn.
- Aelodaeth Un Llais Cymru - Pasiwyd i ail ymuno eleni am bris o £83.
- Pont Newydd y Ddyfi - Derbyniwyd dogfennau a chynlluniau'r bont newydd gan Richard Morgan, Pennaeth Cynllunio a Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru. Trafodwyd hwy'n fanwl gan aros bellach i'r gwaith ddechrau.
- Gwefan y Cyngor - Wedi trafod fe benderfynodd y Cyngor yn unfrydol i gael gwefan newydd er mwyn cydymffurfio ag anghenion newydd yr archwilwyr. Penderfynwyd gofyn i H.G. Web Designs a fyddent yn fodlon ymgymryd â'r gwaith.
- Ymddiriedolaeth Natur - Trafodwyd y syniad o gyflwyno'r Afanc i dir ger yr afon Ddyfi, ac roedd gwrthwynebiad i'r syniad. Bydd llythyr yn cael ei anfon atynt i fynegi hyn.

Mallwyd

Mrs Eirian Jones, Henlllys . 01650 531405
huwjones792@btinternet.com

Bedydd

Yn gynharach eleni, bedyddiwyd dwy gyfnither fach gan y Parchedig Jen Evans yn Eglwys Sant Tydecho, Mallwyd, sef Sioned Fflur, Ceinan a Gwenlli Grug, Gwernhefin. Rhieni bedydd Sioned oedd Rhian Pugh a Geraint Morgans a rhieni bedydd Gwenlli oedd Gareth Wyn Evans-Humphreys a Ffion Evans-Humphreys. Dyma lun o'r ddau deulu ar yr achlysur arbennig.



Lodes Fach

Llongyfarchiadau mawr i Dylan a Mareid, Gwalia ar enedigaeth Efa Non - chwaer fach i Erin a Mabon. Llongyfarchiadau hefyd i Taid a Nain, Tŷ Mawr a Hen Nain Collfryn.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Enid Jones, Collfryn sydd wedi colli ei nith, Elizabeth Jones, Tynrhos, Cemmas Road yn ddiweddar. Cydymdeimlwn hefyd gyda theuluoedd Tŷ Mawr a Henlllys.

Penegoes

Mrs Olwen Roberts, Tegfan
01654 702616

Cymorth Cymunedol

Os oes unrhyw un yn ardal Penegoes hunan-ynysu ac yn dymuno i rywun fynd i nôl yr hanfodion iddynt; boed yn siopa, nôl presgripsiwn neu neges arall, mae Elin Angharad, Erw'r Llan yn fwy na bodlon gwneud hynny i chi. Cysylltwch gydag Elin ar 07972 628 919 neu elin@elinangharad.cymru. Diolch yn fawr iti, Elin.

Cyfarfod Arwr

Dyma lun o Finley Talbot, Maesafallon gyda Ryan Giggs, rheolwr tîm pêl-droed Cymru, yn ystod ei ymweliad â Machynlleth ddiwedd fis Chwefror. Mae Finley yn chwarae i dîm yr Hurricanes ym Machynlleth ac fel y gwelwch o'r llun, yr oedd wedi gwirioni cael cwrdd ag un o'i arwyr.



Wyrion Newydd

Llongyfarchiadau i Carys Pughe, Wenallt, sydd wedi cael wŷr bach newydd yn ddiweddar. Ganwyd mab bach, Now Glyn, i Elen a Steven ym Mhen Llŷn - brawd bach hoffus i Nanw John.

Hefyd llongyfarchiadau i Peter a Lynda Roberts, Werglodd Fach; hwythau hefyd wedi cael wyres fach newydd. Ganol mis Mawrth ganwyd merch fach, Ella Frances i Martin a Frances yng Nghae Crwn, Machynlleth.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Gwenno Haf Griffiths, Caerffynnon ar ei dyweddïad â Glyn o Sir Gaerfyrddin. Dymuniadau gorau i chi'ch dau.

Machynlleth

Gail Jenkins, Caffi Alys
01654703336 / caffialys@yahoo.com

Cylch Meithrin Machynlleth

Gwyddonwyr ifanc Bro Ddyfi

Cynhaliwyd sesiwn 'aros a chwarae' i blant a rhieni/gofalwyr Cylch Meithrin Machynlleth yn ddiweddar. Roedd hyn yn gyfle i'r plant a'u rhieni/gofalwyr ddysgu am wyddoniaeth o dan arweiniad Awen a'i chwmni 'SBARDUNO'. Roedd arbrawf gwahanol i'w

wneud yn ystod y sesiwn. Dyma'r tri arbrawf gwahanol fu'r plant yn ei wneud:

Lamp Lafa - Roedd yr arbrawf yma er mwyn ysgogi diddordeb mewn Gwyddoniaeth ac i annog y plant i gwestiynu ac egluro be maent yn sylwi arno.



Defnyddio'r twmffat a jwg er mwyn arllwys y dŵr i'r botel



Tamed o gliter...



Waw... edrychwch ar fy lamp lafa i!

Gwahanu cymysgedd - Sylweddoli fod rhai sylweddau yn hydoddi mewn dŵr a rhai eraill ddim. Sylweddoli fod dŵr yn gallu anweddu i'r aer.



Cromatograffi - Sylweddoli fod yna liwiau eraill mewn pinnau ffelt.



Mae'n bwysig ysbrydoli ein cenhedlaeth nesaf mor ifanc â phosib, boed yn fechgyn neu'n ferched. Gobeithio y cawn gyfle i wahodd 'Sbarduno' i'r Cylch eto yn y dyfodol.



Ysgol Bro Hydgen – Campws Cynradd

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Ddydd Llun 2 Mawrth gwahoddwyd pawb i ddod i'r ysgol mewn gwisg Gymreig neu ddillad coch er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i gymuned a gwlad. Gwelir yn y llun Angharad, Isla, Rosa a Gracie o ddosbarth Bedwen.



Gweithdy Coedwigoedd Glaw Cymru

Ddydd Iau 12 Mawrth cafodd dosbarth Helygen gyfle arbennig i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai yng ngwarchodfa'r RSPB yn Ynyshir. Dan arweiniad Llinos Alun, Swyddog Ymgysylltu Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru, bu'r disgyblion yn dysgu am goedwigoedd glaw gwerthfawr yr ardal a phwysigrwydd eu gwarchod.

Cafwyd cyfle i archwilio cynefin y goedwig a'r pwll, a dysgu am gadwyni bwyd. Buont hefyd yn archwilio coed a'u mesur, ynghyd â thrafod pwysigrwydd coed o ran atal effaith cynhesu byd-eang. Yn dilyn y gweithdai hyn, bu'r disgyblion yn cydweithio gydag Elin Crowley o gwmni *Ennyn Cymru* i greu baner i adlewyrchu pwysigrwydd gofalu am ein coetiroedd. Bu'r disgyblion yn meddwl am sloganau bachog er mwyn cyfleu neges glir ar y faner, cyn darlunio planhigion a chreaduriaid y goedwig. Yn dilyn hyn, fe argraffwyd y darluniau a'u peintio ac yna eu hychwanegu i gwblhau'r faner. Diolch i Llinos ac Elin a thîm yr RSPB am gynnig profiadau cyfoethog a gwerth chweil i'r disgyblion.



Gweithdai Celf Coetir Anian

Yn ystod Mis Mawrth daeth Clarissa a Holly o *Coetir Anian* i Ddosbarth Derwen i gynnal gweithdai Celf. Cafodd y plant gyfleoedd i wehyddu ac argraffu gan ddefnyddio deunyddiau naturiol sydd i'w canfod yn eu cynefin. Aethpwyd i ardd y Plas i gael ysbrydoliaeth er mwyn creu darnau celfyddydol ar y thema *Môr a Mynydd*. Cyflwynwyd rhai darnau i'w beirniadu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd a nodir y llwyddiannau yma. Diolch am y profiad arbennig hwn a'r cyfle i'r dysgwyr gael datblygu'n Gyfranwyr Mentrus a Chreadigol.



Gweithdai Cloccio gyda Tudur Phillips

Braf oedd croesawu Tudur Phillips i'r ysgol i ddysgu plant Bl 3 - 6 un o hen draddodiadau gwerin Cymru: cloccio. Cafodd y plant hwyl garw gwisgo clocciau ac wedyn yn ceisio meistrolï rhai o'r symudiadau. Llwyddodd ambell un i gyflawni'r gamp o neidio dros hances! Gwefreiddiwyd pawb gan sgiliau Tudur wrth iddo berfformio sut i ddiffodd kannwyll mewn steil.

Gwersi Golfio

Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i Richard James o Glwb Golf Aberdyfi ddaeth i'r ysgol i ddysgu sgiliau golff i blant Bl 3 - 6. Cafodd pawb hwyl garw yn dysgu sgiliau newydd. Dyma oedd cyfle arall iddynt ddatblygu'n Unigolion Iach a Hyderus.

Llwyddiant Gymnasteg

Mae'r ysgol yn falch iawn o lwyddiant Liam yn ennill medal aur yn y gystadleuaeth cymhwyso ar gyfer cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Tymblo Prydain. Does dim dwywaith bod Liam yn tyfu'n Unigolyn Iach a Hyderus.

Canlyniadau Celf a Chrefft Eisteddfod Gylch yr Urdd

Mae'r ysgol yn falch iawn o ymdrechion pawb wnaeth gystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd. Dathlwn lwyddiant yr enillwyr o bell eleni ac edrychwn ymlaen at gael arddangos eu gwaith yn yr ysgol. Maen nhw'n Gyfranwyr Mentrus a Chreadigol. Gweler canlyniadau'r clwstwr ar dudalen 10.



Helfa Drysor yn y Cartref

Mae'n siŵr bod llawer ohonoch, fel finnau, wedi bod wrthi'n clirio a thacluso cypyrddau a droriau yn ddiweddar ac wrth wneud hynny, wedi dod ar draws nifer o drugareddau na welodd olau dydd ers tro. Felly am hwyl, dyma gyfle i chi gynnal Helfa Drysor yn y cartref. Mae 15 marc ar gael.

Gadewch i fi wybod faint o farciau gawsoch chi, a beth am yrru llun neu ddau o'r trysor? Cysylltwch â fi (Lydia) drwy e-bost: joneslyd@googlemail.com

Eitem	P
Llun Salem	
Myg Arwisgiad Prins Charles	
Record Dyniadon Ynfyd Hirfelyn Tesog	
Llyfr dogni gwreiddiol	
Slip cyflog cyn 1970	
Medal o'r Rhyfel Byd Cyntaf	
Cerdyn post a anfonwyd atoch cyn 1970	
Eitem a wnaed yn nosbarthiadau gwaith coed Mr Gwilym Jones Woodwork	
Llyfr ryseitiau Be-Ro	
Rhaglen y Dydd Eisteddfod Maldwyn 1981	

Papur newydd gwreiddiol gyda'r straeon canlynol:

Marwolaeth y Brenin (Chwefror 1952)	
Llofruddiaeth yr Arlywydd Kennedy (1963)	
Y dyn cyntaf ar y lleud (1969)	
Priodas Charles a Diana (1981)	
Trasiedi 9/11 (2001)	

CYFANSWM /15

Beth yw eich sgôr?

- 0-5:** rydych chi'n ifanc, newydd symud tŷ neu'n casau cawdel.
- 6-10:** mae'n bryd i chi ordro un o sgips Dyfi Skips.
- 11-15:** cyfle gwych i arallgyfeirio - agorwch eich tŷ fel amgueddfa.

Prosiect newydd i Lanbrynmair

Yn ddiweddar, bu cwmni newydd ENNYN CIC yn llwyddiannus mewn derbyn bron i £5000 gan y Gronfa Loteri Fawr i gynnal prosiect garddio cymunedol yn Lanbrynmair yn ystod 2020.

Cafodd ENNYN CIC ei sefydlu gan Elin Crowley o Uwch y Garreg a Nicky Arcott Lanbrynmair. Bwriad ENNYN yw cynnig gweithdai a gweithgareddau creadigol mewn ysgolion a chymunedau. Bwriad 'Plan Bee' yw codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd peillwyr trwy gyfres o weithdai, tripiâu a digwyddiadau, gyda chroeso i bawb o bob oed. Bydd rhain yn cynnwys gweithio gyda Helyg, darlunio, argraffu, brodwaith, troi coed, 'whittling', gweithgareddau allgyrsiol i blant, sgyrsiau gan bobl leol, plannu coed, cyngor ar wenyn, a chreu coridor gwenyn gan arddio yn rheolaidd. Hoffem wahodd pob aelod o'r gymuned, yn enwedig rhai sy'n teimlo'n unig neu yn ynysig. Ar hyn o bryd mae hyn hyd yn oed mwy perthnasol!



Yn amlwg, mae'r sefyllfa wedi newid ac mae'n rhaid ystyried y ffordd fwyaf ymarferol i redeg y prosiect. Y syniad cyntaf yw sefydlu clwb garddio anghysbell i unrhyw un sydd â diddordeb.

Byddwn yn postio defnyddiau a gwybodaeth ddefnyddiol (mewn dull diogel), am ddim. Gyda'n gilydd, fe allwn ddechrau creu ein coridor gwenyn, drwy dyfu perlysiâu ar sil eich ffenest, neu flodau gwyllt mewn cornel o'ch gardd. Byddwn yn eich diweddarau gyda gwybodaeth am gynnydd y prosiect, a gobeithio adeiladu ar y cysylltiadau a'r gymuned wych sydd gennym yn barod.

Oes gennych diddordeb yn ein prosiect? Oes gennych unrhyw syniadau am sut y gallwn addasu'r prosiect hwn o dan yr amgylchiadau diweddar? Ymunwch â'n grŵp facebook 'Plan Bee | Lanbrynmair', e-bostiwch ennyncymru@gmail.com neu ffoniwch Nicky ar 0775 1568356 i gyfrannu at y prosiect cyffrous hwn.

Coronafeirws – Llyfr i Blant


Mae cwmni Atebol wedi cyhoeddi addasiad Cymraeg o Coronafeirws – sef llyfr AM DDIM i blant 5-9 oed sy'n rhoi ffeithiau am coronafeirws a'r mesurau i'w reoli. MARI LISA, un o olygyddion y Blewyn Glas sydd wedi addasu'r fersiwn Cymraeg ac mae hi a phawb fu ynghlwm â'r fersiwn Cymraeg a Saesneg (gan gynnwys Axel Scheffler, darlunydd *The Gruffalo*) wedi gwneud y gwaith yn ddi-dâl.

Mae nifer o rieni a gofalwyr yn cael trafferth i egluro'r amgylchiadau presennol i'w plant sy'n teimlo'n bryderus a dryslyd. Ymgais yw'r llyfr

hwn i egluro'r feirws a chysuro plant drwy geisio ateb y cwestiynau y bydd plant yn eu holi megis, beth yw coronafeirws? Sut ydych chi'n ei ddal? Beth alla i wneud i helpu?

Bwriad y cyhoeddwr yw fod y llyfr ar gael i bob plentyn a theulu felly maent yn ei gynnig am ddim. Ond, maen nhw'n gobeithio y gwnewch gyfraniad i'r gwasanaeth iechyd ar <https://www.nhscharitiestogether.co.uk>

Ceir mwy o wybodaeth am y llyfr ar wefan Atebol – www.atebol.com – i'w ddarllen fel llyfr rhyngweithiol neu ei lawrlwytho fel pdf.



Wythnos Cymorth Cristnogol

10 - 16 Mai 2020

Prin fod diwrnod yn mynd heibio nad ydyw effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw ar y newyddion. Yma yng Nghymru, rydym wedi wynebu stormydd cryf, gyda llifogydd difrifol yn achosi difrod mawr i gartrefi a busnesau.

Mewn gwlad fel Kenya, fodd bynnag, sychder yw'r broblem fawr, gyda phobl yn gorfod cerdded milltiroedd i chwilio am ddŵr fydd yn eu galluogi i dyfu cynydu i fwydo eu hunain.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yn canolbwyntio ar effaith yr argyfwng hinsawdd ar Kenya a'i phobl. Eleni bydd yr wythnos yn edrych yn wahanol iawn i'r arferol oherwydd y Coronafirws. Nid yw'r wythnos wedi'i chanslo, fodd bynnag. Mae'r gwaith yn parhau er y bydd yn wahanol iawn.

Cawn glywed hanes Rose, sy'n wraig 67 oed ac yn gofalu am ei hwyron. Mae'n gorfod cerdded chwe awr pob dydd i gasglu dŵr. Hebdo, ni all dyfu cynydu a pharatoi bwyd maethlon i'w theulu. Meddai, 'Mae'r sychder wedi bod yn ddifrifol. Rydym wedi cael tri mis hir heb law. Rydym yn dioddef.'

Clywn hefyd gan Florence. Arferai hithau gerdded pellter maith ond ers i'w chymuned godi argae pridd yn ymyl ei phentref gyda help gan bartner Cymorth Cristnogol, mae ei bywyd hi a'i chymdogion wedi'i drawsnewid. Mae'r sychder lawn mor ddrwg, ond gyda'r argae mae posibl cronni dŵr ar gyfer y tymor sych.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gyfle i godi arian i helpu mwy o gymunedau tebyg i un Florence - cymunedau sydd ar linell flaen yr ymdrech yn erbyn yr argyfwng hinsawdd.

Er na fydd y cyfarfodydd arferol ymlaen yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, bydd cyfleoedd gwahanol i gyfrannu tuag at y gwaith. Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth dros y tlotaf yn ein byd - y bobl sy wedi cyfrannu lleiaf tuag at yr argyfwng, ond sydd er hynny'n gorfod wynebu'r effaith mwyaf.

Am fwy o wybodaeth am yr Wythnos a'r newidiadau fydd iddi eleni, os gwelwch yn dda ewch i'n gwefan: <<https://www.christianaid.org.uk/about-us/christian-aid-week/coronavirus-guidance>>

Aberhosan

Mrs Eryl Evans, Pen-y-glôg 01654 702033
penyglog@gmail.com

Mae'r caeau yn llawn o ŵyn bach, Cennin Pedr yn ei anterth, y Briallu i'w weld, y coed a'r gwrychoedd yn blaguro, y Wennol wedi dychwelyd, a chân yr adar yn cyhoeddi dyfodiad y Gwanwyn. Ond, doedden ni fawr o feddwl fis yn ôl wrth edrych ymlaen at y Gwanwyn a'r Haf y byddem fel gwlad o dan rybudd llywodraeth i aros adre yn ein cartrefi oherwydd y coronafeirws gan ei adael ond i gael dipyn o awyr iach neu i siopa os oes rhaid. Rydym yn sicr yn colli cwmnïaeth teulu, ffrindiau, gweithgareddau a'r gallu i fynd a dod fel 'de ni eisiau. Ond, 'de ni hefyd yn ffodus o gael y ffôn a'r dechnoleg newydd i fedru cadw cysylltiad â rhai annwyl ac mae hynny yn help mawr. Cadwch yn saff pawb.

Llongyfarchiadau

I Alun ac Elaine ar ddatlu 45 mlynedd o briodas ar Fawrth 22. Llongyfarchiadau mawr i chi eich dau a phob dymuniad da. Dyma lun ohonynt yn Eglwys y Drindod, Corris ym 1975.



Ysgol Sul

Dros benwythnos y Pasg, hyfryd oedd gweld fideo o blant yr Ysgol Sul yn dymuno Pasg hapus mewn ffordd fach hwyliog. Ar Facebook oedd y fideo wedi'i rannu'n wreiddiol, ond i'r rheiny ohonoch na gafodd gyfle i'w weld, sganwch y côd yma i'w weld eto. Da iawn chi blantos!



Bu rhai o'r plant hefyd yn brysur yn creu crefftiau'r Pasg yn eu cartrefi. Dyma fideo arall o Annes, Tanllan yn esbonio sut i greu gardd Basg a dyma lun o ardd Basg orffenedig Elis a Cadi, sy'n byw yng Nghemaes ond yn aelodau o'r Ysgol Sul yma yn Aberhosan.





Mot, Llannerch Ddyfi yn mwynhau'r haul!

Codi Calon

Gan Heledd Glyn

Mae hi'n amser pryderus ac anodd i ni gyd, gyda phawb yn naturiol boeni am deuluoedd a ffrindiau ac yn hiraethu am eu cael yn ein hyml. Cyfnod heriol fel na welwyd o'r blaen.

Ond, maen nhw'n dweud fod rhywbeth da yn dod allan o bob dim drwg, ac yn bendant mae hyn i'w weld yn ein cymunedau. Rydym yn ffodus o'n gilydd yn ein hardal, ac mae'r we wedi dod â ni yn agosach fyth. Yma yng Nglantwymyn rydym wedi creu grŵp Cymuned

Glantwymyn ar Facebook - sy'n agored i unrhyw un o'r ardal - ble rydym yn ceisio helpu ein gilydd - dim ond angen gofyn. Rydym wedi bod yn rhannu syniadau, ateb cwis lleol, a gyrru lluniau. Dyma ni rai lluniau gan drigolion Dyffryn Dyfi sydd yn siŵr o godi gwên.

Gobeithio fod pawb o'r ardal yn cadw'n ddiogel a chofiwch nad ydych chi ar ben eich hun yn ystod y cyfnod yma - mae wastad rywun all geisio helpu.

Gyda'n gilydd, yn gryfach.



Blagur Ceirios yn Tŷ Glas.



Paul a Ceri Vaughan yn haeddu diod bach yn Pen y bont.



Ben a Mali ddim yn siwr pam fod Lowri a Rheinallt adre mor aml!



Nel Glyn, Cynefin, Bobi'r ci, Tanyffordd, Cemaes a Sarah Williams yn dweud diolch o galon wrth ein gweithwyr iechyd.



Casi Wyn a Now Ynyr yn dringo'r comin - ffodus o'u milltir sgwâr!



Cwis feistr Glantwymyn!



Teulu Nant y Mynydd yn gobeithio am wylie dramor yn fuan!



Beca a Medi Tudur yn mwynhau'r tywydd braf.



Deian, Siôn a Huw Ifan, Nantygaseg yn cael saib o'r wyna ar bnawn poeth o Ebrill

Dysgwr y mis – Nicky Arscott

Dw i'n arlunydd a dwi'n dod o Henfordd. Mae gen i MA mewn Ysgrifennu Creadigol o Brifysgol Texas, Austin. Dwi'n athrawes celf a hefyd dwi'n creu 'Comics Barddonol': dwi wedi cydweithio gyda amrywiaeth o bobl (o Camerŵn, Latfia, Mecsico) a theithio i India gyda'r bardd Eurig Salisbury. Dwi'n byw yn Llanbrynmair, gyda'r gŵr a 2 o blant.

1. Ble a sut aethoch chi ati i ddysgu Cymraeg?

Mi wnes i ddysgu Cymraeg deg mlynedd yn ôl, yn y dosbarth gyda Nia Llywelyn. Mae gen i ddau o blant yn yr ysgol yma yn Llanbrynmair, felly dwi'n dysgu gyda gwaith cartref y plant. Hefyd mae fy ffrind a chydweithiwr Elin Crowley yn llym iawn: mae hi'n siarad Cymraeg efo fi. (Mae gynnon ni gwmni gweithdy celf, 'Ennyn').

2. Sut mae dysgu Cymraeg wedi newid eich bywyd?

Mae dysgu iaith yn fel ffenest i fyd newydd.

Dwi'n gallu gwerthfawrogi popeth mwy. Mae Cymraeg (iaith, gwlad, pobl, popeth!) wedi siapio fy ngwaith.

3. Beth yw'r peth mwyaf anodd am ddysgu Cymraeg?

Dwi'n anghofio popeth mewn un munud!

4. Oes ganddoch chi hoff gân Gymraeg?

'Lisa Lân' achos enw fy merch yw Lisa. A 'Caru Gwaith (Dim y Life)' gan WH Dyfodol (rhyfedd iawn!)

5. Beth ydych yn mwynhau am ddysgu Cymraeg?

Dwi'n mwynhau dysgu idiomaau newydd, fel 'Fel rhech mewn pot jam', a dwi'n mwynhau gwranddo ar blant yn siarad Cymraeg.

6. Pam bod dysgu Cymraeg yn bwysig i chi?

Mae gen i deulu yn Sbaen, felly dwi'n siarad Sbaeneg yna. Dwi'n byw yng Nghymru: dwi'n trio dysgu Cymraeg!



7. Oes unrhyw beth all ein darllenwyr wneud er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr?

Peidiwch a stopio sgwrsio yn Gymraeg efo ni. (Don't stop speaking Welsh to us!)

8. Beth yw eich hoff eiriau Cymraeg?

Mochyn; onnen; mwydod.

Gwybodaeth am wasanaeth y Cysylltwyr Cymunedol

Mae'r cysylltwyr isod yn gallu cyfeirio pobl at gefnogaeth leol a thu hwnt dros y cyfnod hwn o ymateb i Covid-19 (a thrwy'r flwyddyn mewn gwirionedd wrth gwrs).

Byddwn yn disgwyl i'r Grwpiau Cefnogi Lleol sydd wedi'u sefydlu i helpu yn yr ardal fod yn cysylltu efo chi yn unigol i gynnwys manylion, ond os nad ydy hyn yn digwydd y prif grwpiau ydy:

Machynlleth - Grŵp Ymateb Cymuned Corona Machynlleth (MCCR) - <https://www.facebook.com/MachCoronaResponse/> 01654 370 002 / help@machynllethsupport.net

Llanbrynmair - Grŵp Ymateb Cymuned Corona Llanbrynmair - <https://www.facebook.com/groups/1249103548633011/> / 01650 521738

Abercegir: <https://www.facebook.com/groups/233395261131422/>

Ceinws: <https://www.facebook.com/Ceinws>

Corris: <https://www.facebook.com/groups/491266668424867/>

Corris Uchaf: https://www.facebook.com/groups/625385444980948/?hc_location=ufi

Y Bontfaen / Forge: <https://www.facebook.com/groups/205794814006066/>

Dinas Mawddwy - Cymorth Corona Dolgellau a Dinas Mawddwy Corona Help Group - <https://www.facebook.com/groups/191075669001543/> / 07426 914442

Carno - Grŵp Cefnogi Covid-19 Caersws a Phentrefi Cyfagos - <https://www.facebook.com/groups/870195643393182/> / 07537 106007

Mae CAMAD hefyd yn cydlynw gwasanaeth Casglu Prescripshwn a Chefnogaeth Cymunedol - 01654 700071 / office@camad.org.uk.

Chwilio am gefnogaeth COVID 19? Ddim yn siwr i bwy i ofyn?

Cysylltwyr Cymunedol

Rydym ar agor ac yma i'ch helpu a'ch cefnogi
Helpu unigolion
Cefnogi Grwpiau Cymunedol
Helpu i ganfod cefnogaeth leol

Eich Cysylltydd Lleol
Machynlleth a Bro Ddyfi
Sioned Pritchard

Llun-Gwener 9yb - 10yh a Sadwrn-Sul 9yb - 5yh

01597 828649

cysylltwyr.cymunedol@pavo.org.uk




Blewyn Glas

cysylltwch â ni
papurplewynglas@gmail.com



Tudalen y Plant



A wyddoch chi am yr Ŵyl Diwali?

Mae Diwali yn Ŵyl arbennig iawn yn yr India. Fe'i gelwir yn "Ŵyl y Goleuni" neu "Ŵyl Gobaith" gan Hindwiaid sydd yn dathlu'r flwyddyn newydd. Ystyr y gair Diwali yw 'rhes o lampau wedi eu goleuo'.


Yn amserol iawn, mae'r Ŵyl yn dathlu'r fuddugoliaeth o dda dros ddrwg, goleuni dros y tywyllwch a gwybodaeth dros anwybodaeth ac mae nifer o bobl sy'n dathlu'r Ŵyl yn defnyddio'r amser i:

Lakshmi



- Lanhau'r cartrefi
- Addurno'r tai gyda llawer o oleuadau
- gwisgo dillad newydd
- rhoi a derbyn anrhegion
- paratoi bwyd arbennig
- mwynhau arddangosfeydd tân gwyllt enfawr

Mae'r Ŵyl fel arfer yn anrhydeddu Lakshmi, Duwies Cyfoeth. Mae lampau yn cael eu goleuo i helpu Lakshmi ddod i ymweld â chartrefi'r Hindwiaid. Yn yr India, mae'r Hindwiaid yn gadael eu ffenestri a'u drysau ar agor fel bod Lakshmi yn gallu dod mewn. Mae Rangoli yn cael ei ddarlunio ar loriau'r tai. Patrymau yw'r rhain a'r un mwyaf poblogaidd yw'r blodyn lotws.



Blodyn Lotws



Rama a Sita


Maent yn dathlu'r chwedl enwog, Rama a Sita hefyd. Stori am sut ddychwelodd y cwpl yma'n nôl i'r Deyrnas ar ôl cael eu diarddel am 14 o flynyddoedd yw hon.

Gallwch glywed mwy am hanes Rama a Sita drwy wylio'r clip fideo canlynol:



Eich her chi...

Beth am i chi ail greu chwedl Rama a Sita yn eich geiriau eich hun, ac yn y Gymraeg wrth gwrs, gan ddilyn y lluniau isod?




Lle Crafa'r Iâr - Marian Rees

Y Gader yn gwenu!

Mae'n hen ddywediad nad oes drwg nad yw'n dda i rywun neu rywbeth. Dywediad rhyfedd, ond mae'n wir unwaith eto. Sut? Wel, mae Cader Idris yn wên o glust i glust a hynny oherwydd yr amgylchiadau dybryd yr ydyn ni'n byw ynddyn. Mae'n mwynhau "y gosteg diystwr"... Mae'n cael adferiad. Ac mae'r gog wedi cyrraedd Tal-y-llyn bythefnos yn gynt nag arfer! Croeso! Croeso! Mae'r rhesymau am hynny hefyd yn amlwg, sef tair wythnos ddisymud, ddi-stwr a'u hyfrydwch dieithr wedi gordo'i'r wlad, hyn wedi'i gyfuno a thair wythnos o dywydd braf iawn a'r tymheredd wedi codi i dros ugain gradd, a'r cyfan wedi rhoi gwynt dan adain y gog! Pwy na chyrhaeddai bythefnos yn gynt i fwynhau tawelwch a harddwch digyffelyb y gwanwyn yn Nhal-y-llyn?

Mantais arall y cyfnod cythryblus yma ydy fod cefn gwlad yn cael cyfle annisgwyl i adennill nerth a gogoniant, y traffig a'r tyrfaoedd wedi peidio â bod. Ym myd yr adar y sylwn ni fwyaf ar hyn, eu canu gorawenus. Nid fod yna fwy ohonyn nhw, rwy'n siŵr, ond am nad oes gystadleuaeth i hawlio'n clustiau fe'u clywn yn uwch. Choelia i byth



nad ydyn nhw'n canu o waelod eu calonnau o hapusrwydd llwyr hefyd yn yr heulwen am eu bod nhw'n gallu clywed ei gilydd! Bydd hyn yn golygu, gobeithio, y bydd y tymor nythu yn un llwyddiannus iawn, a phoblogaethau prin yn cynyddu. Bydd eisiau glaw, wrth gwrs,

a digon o bryfetach... mae llystyfiant y pethau bychain dan draed hefyd yn mynd i ffynnu yn absenoldeb y miloedd esgidiau trymion. Dyna dipyn go lew o ddaioni er gwaetha'r drwg, ynte?

Rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n golled economaidd enfawr i gefn gwlad bod heb yr ymwelwyr dros wyliau'r Pasg, pan y byddai'r tywydd braf fel arfer wedi boddi Eryri mewn sŵn cerbydau a thorfeydd sang-di-fan. Y gwir amdani ydy, er gwell neu er gwaeth, mae Cymru'n dibynnu ar hyn bellach, ie, ar dorfeydd hinon ha'. Ond, bobol bach, mae'n braf bod hebddyn nhw am dipyn, a chael cyfle i fod yn ni'n hunain. Dim ond y ni a gwaith y tir mewn cytgord llwyr. Mae'r wŷn bach yn corcio o gylch y caeau, a bydd y lloi bach o'u troi allan yn neidio a rhampio, yn bictiwr perffaith o ysbryd y gwanwyn, a'r "og yn rhywgo'r gwanwyn per o'r pridd". Gwir, fe gymer flynyddoedd efallai i'r economi ddod yn ôl i drefn, ond fe ddaw. Yn y cyfamser gobeithio ein bod ni wedi dysgu un peth, nad rhuthr yw bywyd i fod ond rhywbeth llednais ei gerddeddiad, un dydd ar y tro, gan roi mwy o sylw i'n gilydd ac i'r byd o'n cwmpas.

Cadwch y ffydd!

Dyn busnes lleol yn arallgyfeirio i helpu'r gymuned

Yng ngwyneb y sefyllfa bresennol bod fy musnes wedi gorfod cau i lawr am gyfnod amhenodol, bues i'n meddwl sut y gallwn helpu'r bobl sy'n hunan-ynysu yn y gymuned. Mae pobl lleol wedi cefnogi fy musnes i ers deng mlynedd ar hugain felly teimlais ei bod yn gyfle i mi roi rhywbeth yn ôl iddyn nhw. Cysylltais gyda siopau bwyd lleol, ysbytai, canolfannau iechyd a banciau bwyd, a gadael fy manylion rhag ofn y byddent angen cymorth mewn unrhyw ffordd. 'Dw i wedi cofrestru gyda PAVO, sy'n cael ei redeg gan Gyngor Sir Powys, fel gyrrwr gwirfoddol i gasglu meddyginiaeth neu i yrru rhywun i ysbyty. Os gwyddoch am unrhyw un sydd angen bwyd

neu feddyginiaeth wedi'u casglu o Fachynlleth, ac yn byw yn y dref neu mewn unrhyw bentref cyfagos, peidiwch ag oedi i gysylltu. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, a heb unrhyw fath o gyswllt. Cwbl sydd angen i chi'i wneud os hoffech unrhyw siopa yw ffonio'r siopau i archebu, ac fe wnawn nhw gysylltu â mi i'w casglu i chi. Dyma'r rhifau perthnasol:

Spar - 01654 703625
Siop Blodyn Tatws - 07577 729 029
William Lloyd Williams - 01654 702106
Cyfanfwdy Dyfi - 01654 700552

Aaron Cottam
Mid Wales Furniture, Machynlleth

Hysbysebwrch yn y Blewyn Glas!

Prisiau hysbysebu:

Hyd at 1/8 o dudalen - £10 | Hyd at 1/4 tudalen - £20
Hyd at 1/2 tudalen - £40 | Hyd at dudalen gyfan - £80

Anfonwch eich hysbyseb i:

papurblewynglas@gmail.com

Mae 1000 copi o'r Blewyn Glas yn cael ei werthu bob mis, ac amcangyfrir bod tua 5000 yn ei ddarllen.



Hanes, Dywediadau ac Idiomau'r Ardal – I'w cofnodi a'u cadw!

Y Gwylliaid yn Ardal Mawddwy

Gan Huw Jones, Tŷ Mawr, Mallwyd

Dyma grynodeb o gyflwyniad a wnes i yn y Babell Len yn Eisteddfod Meifod yn 2015 ar hanes Gwylliaid Cochion Mawddwy.

Dylwn ni ddweud fod fy niddordeb i yn y pwnc yma yn deillio o'r ffaith fy mod yn byw ynghanol yr hanes, yn edrych bob dydd ar ffermdy Dugoed Mawr, ar fynydd y Dugoed a Bryn Mawr, ac wedi bod yn byw yn ffermdy 'Collfryn', sydd gyda llaw union ar y ffin rhwng Sir Drefaldwyn a Sir Feirionnydd. Mae'r rhain yn enwau sy'n ein hatgoffa bob dydd o hanes Gwylliaid Cochion Mawddwy, yn ogystal â Llidiart y Barwn a Ffridd Groes y byddai'n sôn amdanynt nes ymlaen, ac enwau fel Pont y Gwylliaid a Cheunant y Gwylliaid ac yn y blaen. Hefyd enwau caeau fel 'Cae Ann' lle trawyd morwyn fferm Gelliddolen gan Wylliaid o ochr arall y cwm - a oedd yn herio'i gilydd ar ba mor dda oeddynt gyda bwa a saeth. Ac wrth gwrs rhaid i mi sôn am 'Tafarn y Gwylliaid' sef y 'Brigands Inn' y mae rhan fwyaf ohonoch wedi ei phasio rwy'n siŵr, ac mae yna fusnesau sydd wedi manteisio ar gysylltiad y Gwylliaid fel siop grefftiau a chaffi melin Meirion, lle mae un o'r Gwylliaid yn arfbais y siop. Pan wnaethpwyd bathodyn i Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy rywdro, roedd bwa a saeth yn rhan amlwg o'r cynllun.

Mae Collfryn gerllaw y boncyn lle, yn ôl yr hanes y crogwyd a chladdwyd 80 o'r Gwylliaid noswyl Nadolig 1554. (Galwyd ein tŷ ni yn 'Henlllys' - hwn yn ol yr hanes oedd yr enw ar bencadlys moethus y Gwylliaid!) Mae 'na fwy o ddiddordeb o hyd i'w weld yn tyfu am yr hanes, sawl rhaglen deledu yn ddiweddar, a sawl un yn cysylltu yn awyddus i wneud taith gerdded o gwmpas yr ardal.

Wel rhaid i mi ddweud nad fy mwriad i ydi taflu goleuni newydd ar hanes y Gwylliaid, ond yn hytrach, - adrodd yr hanes wrth gwrs, a chodi ambell gwestiwn ac o bosibl awgrymu ambell ddehongliad am yr hanes, h.y. pwy oedd y gwylliaid?, o ble y daethant?, pa gyfnod yr oeddent yn byw?, beth oedd eu harferion a'u ffordd o fyw?, ac yn ddiddorol iawn beth oedd ei statws mewn cymdeithas? A pham Gwylliaid Cochion? - oherwydd lliw eu gwallt, neu o gofio am hanes o lofruddio - bod gwaed ar eu dwylo hwyrach? - neu enwau rhai ohonynt?

Dylwn ddweud o'r dechrau mai prin iawn yw'r dystiolaeth mewn gwirionedd, ac mae llawer o hanes y Gwylliaid yn chwedloniaeth a ffrwyth dychymyg sydd wedi ei blethu

gyda'r ffeithiau fel mae'r blynyddoedd wedi mynd ymlaen.

Mae traddodiad y Gwylliaid yn adnabyddus drwy Gymru oherwydd un digwyddiad pwysig ac arwyddocaol yng Nghwm Dugoed bron 500 mlynedd yn ol, - sef ar y 12 Hydref 1555, a phwysig gyda llaw yng nghyd - destun hanes Cymru, ac o bosib na fyddwn yma heddiw yn dweud yr hanes oni bai am hyn, - sef llofruddiaeth y Barwn Lewis Owen o'r Plas yn Dre, Dolgellau - ac o deulu'r Llwyn. Gyda llaw, wrth deithio o Lanfair Caereinion i gyfeiriad Mallwyd ar yr A458 - ac ar ol pasio'r arwydd eich bod yn dod i'r hen Sir Feirionnydd, byddwch yn dod drwy Gwm y Dugoed.

Mi roedd y Barwn Owen yn ŵr hynod ddylanwadol ym Meirionnydd, trwy Ogledd Cymru a thu hwnt, ac roedd ar y pryd ac yn Uchel Siryf Meirionnydd, a hyn am yr ail dro. Roedd o'n ffigwr amlwg yn y drefn weinyddol Duduraidd newydd, a dyma'r cyfnod yr oedd o wedi cyrraedd pinael ei yrfa. Yn ogystal â bod yn uchel-siryf, gweithredai fel ustus heddwch, ac wedi bod yn Aelod Seneddol, Roedd o'n Ddirprwy Siambren Gogledd Cymru - hyn oedd yn rhoi'r teitl 'Barwn' iddo.

Fel y dywedais mai dogfennau am yr hanes yn brin, a'r person cyntaf a ysgrifennodd am y llofruddiaeth oedd yr hynafiaethydd Robert Vaughan o'r Hengwrt, Dolgellau (a oedd yn byw rhwng 1592 a 1667) - oedd yn sgwennu mewn llawysgrif am farwolaeth ei hen daid bron 100 mlynedd wedi'r digwyddiad.

Y person cyntaf i ysgrifennu am y digwyddiad yma mewn print oedd Thomas Pennant, a hynny yn ei lyfr 'Tours of Wales' a gyhoeddwyd yn 1778, ond mae'n bwysig cofio i'r fersiwn yma gael ei gyhoeddi dros 2 ganrif wedi'r digwyddiad. Roedd Thomas Pennant yn sicr wedi ychwanegu i'r hyn a ysgrifennwyd gan Robert Vaughan. A oedd o wedi clywed am yr hanes, neu a yw'n bosib fod yr hyn a ysgrifennodd yn ffrwyth dychymyg i raddau?

Felly beth oedd y cymhelliad i Wylliaid Mawddwy gyflawni'r llofruddiaeth erchyll yma? Y gwir ydi fod yna nifer o ffactorau cymdeithasol, gweinyddol a gwleidyddol ac mae'n rhaid i ni felly geisio ystyried y cyd-destun ehangach.

Felly, pwy oeddynt? Mae yna un dehongliad yn nodi mai Gwyddelod oedd y Gwylliaid yn wreiddiol. Yn ôl yr hanes ar lafar gwlad, mi roedd y Gwylliaid yn ardal Mawddwy ers gwrthryfel Owain Glyndŵr. Mi roedd Arglwydd Mawddwy, y cyfnod

hwnnw, yn gefnder cyfan i Owain Glyndŵr ei hun ond mae yn werth nodi, yn ol yr hanes, na fu iddo gefnogi'r gwrthryfel. Er hynny, mi gefnogodd gwerinwyr Mawddwy Owain Glyndŵr hefo sêl arbennig, a phan fethodd y gwrthryfel, fe fu llawer o ddial a cholodd llawer o ffermwyr a thyddynwyr eu tiroedd a'u cartrefi, a doedd dim dewis ond byw ar herw yng nghoedwigoedd Mawddwy. Mae yna un theori felly mai disgynyddion i ddilynwyr Owain Glyndŵr oedd y Gwylliaid Cochion. Dywedir mai yn 1421 y bu'r diwedd swyddogol ar wrthryfel Owain Glyndŵr, ac mae nifer o haneswyr wedi adrodd fel yr oedd Cymru mewn cyflwr o anhrefn cymdeithasol enfawr ar ol y rhyfeloedd. Roedd y 15fed ganrif yn nodedig am fod a diffyg trefn a chyfraith - yn wir, dim cyfraith o gwbl mewn rhai manau ac roedd hyn yn arbennig o wir am Fawddwy.

Nodir fod Mawddwy yn ardal anghysbell a diarffordd, rhaid ystyried fod 3 Bwlch yn cwmpasu'r ardal - Bwlch yr Oerddrws i gyfeiriad Dolgellau, Bwlch y Groes i Lanuwchllyn, a Bwlch y Fedwen i'r cyfeiriad yma. Ond yr oedd Mawddwy yn anghysbell hefyd oherwydd ei bod - cyn y deddfau uno - ar y ffin rhwng yr hen Bowys a Gwynedd. Mi roedd Mawddwy ar y pryd yn Arglwyddiaeth ei hun gyda'i defodau a'i chyfraith ei hun a medrai'r gwylliaid fynd dros Fwlch y Groes neu Fwlch yr Oerddrws i ddwyn gwartheg ac yna dychwelyd yn ôl i gadernid Mawddwy ac osgoi grym y gyfraith.

Rhaid cofio hefyd fod y 15fed Ganrif yn gyfnod cythryblus ar lefel ehangach gyda brwydro rhwng carfannau a theuluoedd bonedd Lloegr, yr hyn a elwir Rhyfel y Rhosynod. Roedd yna frwydro ysbeidiol rhwng 1455 a Brwydr Bosworth yn 1485 rhwng pleidiau'r Lancastriaid a'r Iorciaid. Canlyniad y brwydro oedd bod nifer o wehilion ar ffo, a llawer yn dod i Gymru, ac yn ol un hanesydd i Fawddwy yn arbennig.

Gyda goruchafiaeth y Tuduriaid ar Faes Bosworth yn 1485, fe geisiwyd mynd i'r afael a chyfraith a threfn a gyda'r Ddeddf Uno yn 1536 fe unwyd Mawddwy a'r hen Sir Feirionnydd. Pan benodwyd Lewis Owen yn Uchel Siryf Meirionnydd am yr ail dro yn 1554 fe aeth i'r afael a'r gwylliaid a gwneud hynny gydag arddeliad.


Cewch wybod yn rhifyn Mai beth yn union wnaeth Lewis Owen. Mae'n stori werth ei darllen!

Edrych 'nôl ar y Blewyn Glas

Mae'r cyfnod yma adref wedi rhoi amser i mi dwrio am hen rifynnau o'r Blewyn Glas, a chymharu rhifynnau cyn belled 'nôl â 1980. Dyma flas ar dudalennau blaen rhifynnau Ebrill dros bedwar degawd...

Ebrill 1980

12c a deuddeg tudalen oedd rhifyn 25 o'r papur. Ar flaen y rhifyn yma mae'r pennawd 'Meistres y Mastermind' a llun o ferch fach. Pwy oedd hi medde chi? Wel Dr Ray Stewart M.A oedd hi, enillydd cystadleuaeth ryngwladol Mastermind ar y teledu. Ei chysylltiad â'r Blewyn Glas oedd ei bod wedi bod yn aros yn Aberangell yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yn mynychu ysgol y pentref. Roedd hi'n wyres i Mr a Mrs John Breese, gynt o Benybanc, Aberangell. Hefyd ar y dudalen flaen gwelir y pennawd 'Gwaith i'r Ardal' a chynllun o ffatrïoedd bach oedd i'w hagor yng Nghorris gyda'r bwriad o gyflogi tua ugain o bobl yr ardal. Wrth gwrs mae'r "ffatrïoedd bach" yma'n fwy adnabyddus i ni heddiw fel 'Canolfan Greffttau Corris', sy'n cyflogi tipyn mwy nag ugain erbyn hyn. Oddi tan yr erthygl honno sonnir am y bwriad o ddatblygu pentref Llanbrynmair a'r bwriad o gynnal cyfarfod cyhoeddus i gael barn trigolion yr ardal. Tybed beth oedd canlyniad y cyfarfod yma?



Ebrill 1990

Roedd y dudalen flaen yn llawn dop fis yma, ac yn werth bob un o'r 25c! Yn y llun ar y chwith, gwelir Llinos Glyn, Cynffyrch yn cyflwyno tusw o flodau i Owenna Jones (Penrhyn Dyfi gynt) wedi iddi agor Ffair Flynyddol y Blewyn yn y Ganolfan Gymdeithasol ym Machynlleth. Yn ôl yr adroddiad, llwyddwyd i godi £991.38 yn y ffair sy'n swm anhygoel heddiw, heb sôn am bryd hynny. Hefyd ar y dudalen flaen roedd adroddiad ariannol o Wyl Ddramâu'r Blewyn, oedd wedi llwyddo i godi £399 wrth berfformio o gwmpas yr ardal, ac ar waelod y dudalen, gwelir llun o dimau pêl-droed Y Blewyn Glas a Phobol y Cwm, fu'n chwarae ar Gae Glas, Machynlleth - faint sy'n cofio'r digwyddiad yma? Colli 5-4 oedd hanes tîm y Blewyn mae'n debyg - oes rhywun yn cofio pwy oedd yn chwarae i dîm y papur? Braf fyddai gwybod! Yn y golofn ar yr ochr dde mae cyfweiliad rhwng Cyril Jones, Gwilym Fychan ac Emyr Williams am gynhadledd i'r wasg a alwyd gan Y Blewyn Glas i lansio adroddiad ar ddyfodol y papurau bro. Roedd y datblygiad yma wedi cael cryn sylw ar y radio a'r teledu bryd hynny - 'sgwn i faint o'r cyfweiliad sy'n dal i fod yn berthnasol heddiw i ddyfodol y papurau hyn?



Ebrill 2000

Rhifyn 249 oedd hwn, oedd yn costio 30c. Yn y llun uchaf gwelir Mr Henry Evans a Mr Gwyn Briwiant Jones mewn noson lansio'r llyfr 'Llinellau Coll' yn Celtica, sef llyfr o hen luniau a barddoniaeth am drenau a rheilffyrdd. Dan y pennawd 'Y Bennod Olaf', mae adroddiad am ddatliad canmlwyddiant a hanner Capel Bethania Derwenlas oedd hefyd yn wasanaeth i gau'r capel - cymysgedd o lawenydd a thristwch oedd yr achlysur hwn rwy'n siŵr. Gwelir llun o Mr John Rowlands, sef yr unig aelod ar lyfrau'r Capel ar y pryd, yn sefyll yn y Sedd Fawr yn y gwasanaeth olaf. Yna, ar waelod y dudalen... Faint ohonoch sy'n cofio'r rhaglen prynu a phrisio eitemau, 'Twrio' ar 54c? Wel yma roedd hysbyseb

fod C.F.I Bro Ddyf yn gwahodd y rhaglen i Fachynlleth y mis canlynol, gyda'r rhaglen i'w darlledu'n fawr. Dyddie da!

Ebrill 2010

Roedd cost y papur wedi codi i 50c erbyn hyn! Un llun oedd ar y dudalen flaen fis yma, sef llun o Lil Woods, oedd yn 12 oed ar y pryd ac yn byw yn Llwynffynnon, Abercegir. Roedd hi wedi bod yn fflmio'r fflm *Nanny McPhee and the Big Bang* gyda'r actorion fyd enwog, Emma Thompson a Rhys Ifans. Ar y dudalen flaen roedd Lil wedi disgrifio'r profiad o ffilmio i ddarllenwyr y Blewyn Glas. Tybed beth yw hanes Lil erbyn hyn a tybed ai'r Blewyn Glas oedd ei datganiad cyntaf i'r wasg? Diddorol fyddai gwybod!

Gwaed Coch Cyfan

Gan Mari Grug

(Cyn-enillydd cadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Maldwyn 2017)

Tynnodd hi tuag ato a theimlodd ei wres cyfarwydd yn binnau bach dros ei chorff cyfan. Plannodd ei gusan dyner ar ei gwefusau a dechreuodd ei gwres godi. Curai ei chalon tu mewn iddi gymaint, bron ei fod yn fyddarol, bron ei bod am ffrwydro mewn pleser. Ac eto, ffrwydro am iddi wybod bod hwn yn greadur na ddylai agosâi ato, ond dilyn gwnaeth y cusanau. Pob un yn fwy nwydus na'r ddiwethaf. Teimlodd ei ddwylo cyfarwydd yn llithro i lawr am ei chanol. Roedd hi'n ysu, ysu am ei gyffyrddiad cyfarwydd. Tynnodd yn ôl. Dal ei gwynt. Callio. Roedd yn gwenu arni, fel nad oedd dim o'i le. Ei lygaid glas yn pefrio arni, yn ei thynnu i mewn am un gusan arall.

Estynnai'r môr glas am filltiroedd nes ymdoddi i'r tywod euraid, cynnes hwn dan draed. Traeth tawel Karekare yng ngorllewin Auckland, Seland Newydd. Prin iawn yw'r ymwelwyr yma. Cornel fach brydferth o'r byd sydd prin wedi ei gyffwrdd gan grafangau twristiaeth. Dyma'r apêl. Dawnsiodd y tywod man rhwng bodiau traed Lili wrth iddi gerdded. Teimlodd fodlonrwydd cyfarwydd wrth gerdded y clustog melfed o dywod. Weithiau, byddai'n clywed rhai trigolion neu fân ymwelwyr yn cwyno am leoliad anghysbell y traeth.

"It's such a long way."
"Public transport links are appalling."

Gwenodd Lili. Dim ond un siop fach sydd yma, siop sy'n cynnwys popeth y byddai un ei angen. Gwell digon na gormod. Mae'r ffyrdd yn gul a serth gan droelli i fannau dirgel na w'r neb amdanynt. Dyma'r apêl. Roedd Karekare yn ei hatgoffa o Gymru. Bodolai cymuned glos o bobl yma, teuluoedd o fewn eu milltir sgwâr - yn byw a gweithio yn eu cynefin. Roedd hefyd yn ardal amaethyddol iawn a sŵn canu grwndi cyfareddol tractor wrth ei waith yn gwneud iddi wenu bob tro. Eto, roedd gwahaniaeth mawr rhwng y ddau le. Yma roedd hi'n glyd a chysurus, ac yn bwysicach fyth - diogel.

Wrth iddi gerdded heibio i'r gilfan nesaf, daeth y caban bach pren i'r golwg, wedi ei guddio bron o'r golwg yn ôl o'r traeth rhwng y llwyni. Wrth gerdded tuag adref, trodd Lili a cherdded heibio'r caban tuag at y drws cefn. Roedd waliau pren y sied yn dangos hoel halen a thywydd garw'r Gaeaf a ffrâm y ffenestr yn dechrau plicio gan ddatgelu haenau cudd y pren - yn greithiau ar yr wyneb. Gallai weld trwy'r ffenestr fod Bill yn y sinc yn golchi llestri. Dyn brodorol oedd Bill, wedi byw a bod yn yr un hen gornel sgwâr ar hyd ei oes.

Dyn bychan ei gorff ond enfawr ei galon. Adlewyrchai ei wallt wylltineb ei gynefin, yn donnau diddiwedd o rostir tywyll. Meddyliai Lili y gallai foddi yn nyfnder duwch ei lygaid. Edrychodd nesa ar ei groen lledr crychiog oedd yn feddal i gyd, fel hen fag satchel celf. Doedd gan Bill ddim teulu ei hun yma. Erbyn hyn, Lili sy'n byw yn y tŷ a Bill yn fodlon ei fyd yn ei gwt bach pren ym mhen pella'r ardd. Roedd y cytundeb yn siwtio pawb, rhannent ambell bryd bwyd o dro i dro ond eto synhwyrâi'r ddau o ran greddf pan oedd angen llonydd ar y llall. Roedd hi'n hoff iawn o Bill, hoff ohono fel rhyw ewythr neu daid na chafodd hi erioed. Cododd ei llaw mewn cyfarchiad, gwenu a throi am ddrws cefn y tŷ.

Prin llwyddo i gau'r drws y tu ôl iddi wnaeth Lili cyn clywed camau bach cyflym Deio'n nesáu ati a'i ddwylo bach cynnes diniwed yn gafael yn dynn am ei choes. Trodd ar ei hunion i'w gofleidio. Roedd ei lygaid bach glas yn dawnsio mewn direidi a'i gwrls melyn tywyll yn afreolus o fywiog. Daliodd Deio'n awdurdodol am Jemeima hefyd, byddai Jemeima'r afr byth yn bell iawn o'i afael. Gorchuddiwyd Deio gan baent amryliw ac roedd smotyn bach glas wedi sychu'n galed ar flaen ei drwyn bach meddal. Roedd Jemeima i'w gweld wedi bod yn prysur baentio hefyd gyda'i charnau'n felyn a phinc a glas. Byddai'n rhaid i Lili roi honno yn y peiriant golchi rhyw ben cyn iddi nosi eto. Amhosib byddai rhoi perswâd ar Deio i gysgu heb Jemeima. 'Wel mae rhywun wedi bod wrthi'n brysur heddiw do?' Wyddai hi byth pa fath o ymateb a gai, roedd Deio yn anwadal. Weithiau'r siaradus fel melin bupur ac weithiau'n fud. Gwyddai Lili bryd hynny ei fod mewn lle pell - mewn byd arall. Mentrodd eto. 'Be fues ti'n gwneud?' Dywedodd Lili wrth brocio Deio'n ysgafn yn ei fol bach crwn. Gwnaeth hynny iddo ddechrau chwerthin. Pwysodd ei gorff bach i mewn tuag at Lili gan ei gorchuddio hithau mewn paent hefyd. Doedd dim owns o ots ganddi chwaith. Teimlodd wres y corff bach cynnes yn ei herbyn gan wneud iddi wenu, roedd hwn yn ddiwrnod da. Tynnodd i ffrwd oddi wrthi a mynd yn ei flaen i adrodd hanes y dydd.

'Dwi wedi 'neud llun i ti.' Cyhoeddodd Deio'n falch.

Aeth yn ei flaen, 'Llun o ti a fi a Jemeima ar y traeth yn chwarae cestyll tywod.' Dyna esbonio'r paent melyn a glas, meddyliodd Lili. 'Ti am ddangos y llun yma i mi?' Holodd Lili. Pwysodd Deio ei ên i mewn i'w frest yn swil gan dynnu Jemeima'n agosach fyth

ato. Roedd yn greadur bach sensitif fyth. Penderfynodd Lili beidio â phwyso arno. 'Beth am damed o ginio te?' Holodd eto gan newid cyfeiriad y sgwrs. Edrychodd y ddau bwl glas diwaelod i fyny arni'n obeithiol ond dywedodd o ddim.

'Wy a soldiwrs?' Dywedodd Lili eto gan weld y llygaid bach glas yn agor yn gytûn.

Dim ond newydd lwyddo rhoi'r llestri o'r neilltu oedd Lili. Roedd hi wedi bod yn brynhawn prysur. Roedd Jemeima'r afr yn chwyrlio mewn 60 gradd a Deio'n eistedd yno'n ei wyllo. Roedd y tegan meddal bach hwn yn dod a cymaint o gysur iddo. Byddai fyth yn bell iawn o'i afael.

Arllwysodd Lili baned i'w hun cyn troi at ei gliniadur i edrych ei he-byst. Sothach oedd mwyafrif y negeseuon a Lili'n talu dim sylw cyn eu dileu. Yna...rhewi. Oedd hi'n gweld yn iawn? Roedd blynyddoedd wedi pasio heibio. Yno yn syllu arni, oedd neges newydd gan Gruff. Er mai cyffyrddiad electroneg oedd hon, teimlai ergyd y neges fel pe bai Gruff ei hun yn sefyll o'i blaen. Fferrodd ei gwaed.

Tynnodd ei chardigan yn dynnach amdani gan deimlo gwynt oer Cymru'n bwrw yn erbyn pob blewyn. Roedd hi'n groen gwydd drosti. Da bydd cyrraedd pen y daith. Da bydd dianc i ben draw'r Byd.

Roedd rhai tridiau wedi pasio heibio erbyn hyn a neges gan Gruff yn eistedd heb ei darllen. Fiw iddi ei ddarllen, meddyliodd. A'i haws byddai ei ddileu ac anghofio bodolaeth y neges? Haws dweud na gwneud. Roedd y chwylfrydedd yn ormod iddi ei ddiodef. Eisteddodd o flaen ei gliniadur. Oedd hi am fentro? Mentro agor hen friw. Rhy hwyr.

Poerodd arni, roedd hi yn ei gwegil ar lawr mewn poen a dyma fo'n poeri arni. Y llygaid glas fu unwaith yn byllau o gariad yn oer gan gasineb. Roedd ei hwylo crio wedi peidio. Roedd hi wedi dysgu ei gwrs. 'Cau dy geg' hisiodd arni a'i bwrw yn ôl i'r llawr. Caeodd ei cheg. Daeth dim smic. Roedd hi'n sgrechian y tu mewn. Byddai'n siŵr o ddiiflasu'n fuan, meddyliodd. Byddai'r hunllef yn siŵr o ddod i ben. Tan y tro nesaf beth bynnag. Rhywle yn y cefndir, gallai glywed y babi'n crio. Yn hytrach na gweddi o'r boen beidio, gweddiodd iddo barhau. Os oedd o yma, doedd o ddim yna. Fyddai o fyth, byth yn cyffwrdd ar ei blentyn ei hun? Ysodd am gael mynd at yr un bach i'w gysuro, ond doedd fiw iddi symud. Doedd fiw iddi wneud yr un smic. Dim ond gorwedd yno. Cnoi ei thafod a dal ymlaen i ddiferyn o obaith mewn sefyllfa

anobeithiol. Roedd hi'n ffŵl. Yn ffŵl mewn cariad a'r dyn hwn oedd yn gormesi drosti, yn ei bygwth, yn ei hanner lladd. Ond byddai gadael yn lladd yr hanner arall oedd ar ôl ohoni.

Lili,
Fedrai ddim bod yn siŵr dy fod ti'n darllen y neges hon ai peidio, ond mae'n rhaid i mi roi cynnig arni beth bynnag. Un ffordd neu'r llall dwi'n gobeithio bydd y geiriau yma'n dy gyrraedd di.

Dwi'n sori.
Gruff.

Dyna'i gyd. Dim byd mwy, dim byd llai. Dau air i gyfleu'r holl boen. Dau air bach pitw oedd yn dweud dim. Dim digon beth bynnag. Meddyliodd Lili yn ôl i gyfnod arall lle byddai'r geiriau wedi bod yn ddigon - cyn iddi ddeall pa mor amhosib oedd newid anian y dyn. Pa bynnag dda sydd ynddo, bydd wastad drwg.

Gyrrodd Lili adref gan forio canu. Buodd y misoedd diwethaf yn rhai da. Dirwyn i ben oedd yr Haf a hwythau newydd ddychwelyd o benwythnos braf ym Manceinion. Gwnaethant y pethau bach mae teuluoedd yn ei gwneud. Ymweld â fan hyn a fan draw, mynd i'r ffair fin nos a Gruff yn mynd a Deio ar y chwyrligwgan, yn ofalus rhag ofn iddo ddychryn gormod. Daliodd Deio ymlaen yn dynn iddo ac edrychodd Lili arno mewn edmygedd. Teulu bach perffaith. Doedd Gruff heb gyffwrdd mewn diod ers mis Ebrill, roedd ei dymer wedi ei dewi. Ar y ffordd adref o'i gwaith oedd hi heddiw, newydd gyftwyno'r adroddiad chwech misol i'r penaethiaid. Roedd hi wedi gweithio'n galed arno ac wedi aros ar ôl yn y gwaith yn hwyrach heno er mwyn cael gwneud yn siŵr bod pob dim yn berffaith. Oedd, roedd hi'n hapus ac yn morio canu. Parciodd ei char ac estyn y bag Morrisons o'r sêd gefn. Stecen, tships a photel o win coch i ddathlu. Agorodd ddrws y tŷ a galw am y teulu. Dim sŵn. Tynnodd ei chôt a rhoi ffedog amdani gan ddechrau paratoi'r tatws ar gyfer eu ffrio. Bron eu bod yn barod felly i ffwrdd a Lili am y bwtri i estyn potel ffres o olew. Agorodd y drws i dywyllwch y bwtri. Trodd y golau ymlaen a'u fferru. Llithrodd y badell o'i dwylo yn syth i'r llawr. Byddai sŵn byddarol y badell yn taro'r llechi oer wedi bod yn fyddarol, yn boenus i'r glust, ond chlywodd hi ddim. Yno, ym mhen draw'r bwtri yr eisteddai ei mab bach dwyflwydd, y cyrls tywod bywiog yn wlyb gan ddagrau. Roedd o'n ddistaw. Yn gorwedd yno a'i lygaid bach glas yn ymddiheuro. Yn chwilio am faddeuant ar ôl i Gruff ddysgu ei wers.

Roedd Lili'n corddi wrth gofio nôl. Diflannodd hoel y boen ffisegol ond dwfn oedd y graith feddyliol. Petai Lili'n dod wyneb yn wyneb a fo heddiw, byddai'n gwasgu'r aer o'i ysgyfaint. Byddai'n curo'r bwystfil ffiaidd yn gelain. Roedd yr atgas yn berwi. Bu bron iddi ffrwydro a sgrechian mewn rhwystredigaeth. Yna, Deio, cofiodd ei fod yn cysgu'n glyd yn ei wely. Meddyliodd am Deio, fel y gwnaeth hi'r

prynhawn hwnnw. Y duedd famol reddfol honno'n golchi drosti. Yr angen i bwylo bryd hynny. Yr angen i feddwl yn gyflym. Doedd dim cynllun ar y gweill, dim syniad sut, ble, pryd. Sicrhau diogelwch Deio, dyna oedd yn bwysig bryd hynny. Dyna sy'n bwysig heddiw a pob 'fory. Dyna fu'r penderfyniad. Dianc er mwyn achub Deio. Diflannu er mwyn creu dyfodol.

* * *

Cai Lili cymaint o bleser yn gyrru ar hyd y rhimyn hwn o'r arfordir tuag adre. Hyd yn oed heddiw, ar fore digon difflach, roedd y môr yn dawnsio yn erbyn y cerrig tywod islaw. Wrth agosâi at y dre byddai'r môr yn plethu i ddolydd gwyrdd byw a'r rhain yn llawn parotiaid gwyllt. Defod foreol Deio oedd gwasgu ei glust at ffenestr y car a gwrando, ceisio gwneud synnwyr o'r miri. Doedd heddiw dim gwahanol. Eisteddodd yno'n dawel, dim ond gwrando'n astud. Roedd o'n greadur bach digon unigryw am fachgen wyth mlwydd oed. Roedd Karekare yn fwmian prysur heddiw gyda mwy o ymwelwyr nag arfer o gwmpas y dre.

Teimlai Lili'n ddigon anesmwyth mewn torfeydd tebyg ond gwelodd wyneb cyfeillgar Bill ym mherfeddion pell y dorf. Roedd wedi gwirioni ac yn gweithio ei ffordd tuag atynt, ei fol crwn yn hyrddio pawb i'r chwith ac i'r dde fel rhes o ddominos. Gwenodd Lili.

'Lili! Wel sôn am ddilêit dy weld chi yma. Dewch dewch, ow ni am baned.' Adroddodd hyn oll bron iawn mewn un gwynt ac i mewn â'r tri i gaffi cyfagos. Caffi oedd hwn gyda siop arddio ac anifeiliaid anwes yn llifo allan trwy'r ddau ddrws gwyr tua'r cefn. Roedd yr hanner hwnnw yn orlawn o fioled, sgorpionlys a blodau mihangel. Saethodd llygaid Lili o un i'r llall mewn pleser a'u ffroenau yn cytuno'n unsain. Roedd tipyn o fwrwm yma hefyd, llond lle o sŵn a miri a bu'r tri yn lwcus o allu cipio bwrdd bach reit slic yng nghornel y caffi. Buont yn clebran yno am bron i awr, y ddau'n ymgolli mewn sgwrs ddfyfr. Roedd Deio wedi mynd ar grwydr trwy'r planhigion, gan ymddiddori mewn ambell un wrth basio heibio. Erbyn hyn, roedd wedi cael hyd i guddfan tu ôl i lwyth o flodau'r haul enfawr. Cododd Lili i fynd ato wrth i Bill fynd at y cownter i dalu. Yng nghanol prysurdeb a miri'r caffi doedd Lili heb sylwi ar y corlannau bach pren. Yno oedd Deio'n procio'i ddwylo bach i mewn ac yn clebran ffwrdd â hi gyda'r cŵn anwes bach delia erioed. Edrychodd Bill a Lili arno gan wenu.

Naw mlwydd oed, dyna oedd Deio heddiw. Gallai Lili prin goelio hynny ei hun, roedd amser wedi hedfan ar atgof o'r erchylltra gynt erbyn hyn yn ddim ond pigiad bach poenus. Y math o bigiad doctor byddai pawb yn eu casáu, y rhai gorfodol, anorfod sy'n codi o bryd i'w gilydd. Yna, anghofir y boen...tan y tro nesaf. Doedd dim poen am fod heddiw. Roedd yn achlysur i'w ddathlu a Lili wedi bod

yn prysur baratoi ers diwrnodau. Eisteddai'r teisennau bach lemwn yn unffurf ar fwrdd y gegin ar rif naw wedi ei addurno'n daclus arnynt. Tu hwnt i ffenestr y gegin, safai'r tŷ chwarae pîn newydd. Roedd pedair wal a tho, pedair ffenestr a drws arno. Roedd popeth amdano'n gymesur, popeth yn berffaith.

Sefyll yno'n edmygu'r tŷ bach oedd Lili pan ddaeth Bill heibio'r ffenestr a hwnnw'n gwenu fel dyn dwl. Cododd ei fraich i fyny at y ffenestr er mwyn dangos rhywbeth i Lili. Gafaeliai yn y ci bach mwyaf annwyl a direidus welodd Lili erioed. 'Ti'n meddwl fydd o'n licio fo?' Holodd Bill yn ddiangen, roedd y wen lydan ar wyneb Lili'n dweud y cyfan. Yn ddi-os, dyma hoff anrheg Deio. Yn wir, roedd wedi gwirioni, a Bill yn ymfalchio yn hynny.

Buan iawn daeth Jim y ci yn bedwerydd aelod i'r 'teulu'. Roedd pawb wedi dotio. Cynffon gwta oedd ganddi a phedair pawen feddal. Creadur melyn cyrliog ei blew gydag ambell smotyn brown yma a thraw. Yr anrheg mwyaf perffaith os bu un erioed.

Gafaelodd yn dynn ynddi gan deimlo gwres ei chorff yn erbyn ei groen. Gallai deimlo pylsadau'r corff yn taro'n galed yn erbyn bysedd ei ddwylo. Bûm bûm, bûm. Pob un yn arafach na'r diwethaf. Mwythodd ei chorun yn lawdrwm. Roedd yn rheoli, yn rheoli pob symudiad ac yn ffynnu gyda'r fath bŵer.

Byrhau oedd y dyddiau wrth i Hydref Karekare droi'n Aeaf. Prysurodd Lili o'i char gan ddal ei gafael ar ei llwyth o negeseuon yn fedrus. Sgil byddai pob mam gwerth ei halen wedi perffeithio. Gwelai gefn cyfarwydd Bill yn ei gadair siglo wrth ddrws y caban. Sylwodd Lili hefyd fod ei ysgwyddau'n isel, ei gefn yn grwm. Yn eistedd yno, edrychai fel dyn wedi ei dorri. Doedd dim sôn am Jim chwaith, arferai Lili gyrraedd adre i'w gweld yn gorwedd yn ffyddlon wrth draed Bill.

'Ty'd am baned a tamed o swper Bill' meddai wrth nesáu ato. Ond sylly i ryw ffurfafen bell wna Bill, heb edrych arni, heb yngan gair. Gosododd ei llaw yn dyner ar ei ysgwydd a phen-glinio wrth ymyl ei gadair. Pwysodd ato a gweld fod ei lygaid, y ddau golsyn du caredig gynt yn ddi fflach, yn llonydd. Oedd curiad ei chalon am ennyd gan ofni'r gwaethaf. Roedd y pyllau du'n orlif o ddagrau, yn lynnoedd dyfn o anobaith. Sylwodd Lili ei fod yn sylly i un man, dilynodd lwybr ei lygaid yn araf bach. Bron bod ofn edrych arni.

Yno, yn sefyll ar yr aelwyd safai Gruff. Roedd ei fraich wedi ei lapio'n wenwynig dros ysgwydd Deio. Edrychodd ar ei gyrls bach melyn yn dawnsio yn erbyn croen braich y bwystfil. Edrychodd Lili ar lygaid glas ei mab yn fflachio mewn cyffro. Doedd Deio ddim yn cofio'r boen, ond i Lili mae mor amrwd ac erioed. Yn sefyll yn ffyddlon wrth ymyl Deio oedd Jim y ci. Gwyddai Lili yn yr eiliad honno bod y ddau yn deall ei gilydd...yn deall peryg yr ymwelydd diarth yma a Karakawe.

Y Golofn Chwaraeon

Gyda'r tymor chwaraeon wedi'i dorri'n fyr eleni, nid oes unrhyw gemau i adrodd amdanynt, ond i lawer o gefnogwyr Clwb Pêl-droed Lerpwl, siom o'r mwyaf oedd y newyddion na fyddai'r tymor yn cyrraedd ei bendraw. Dyma eiriau un o gefnogwyr brwd Lerpwl - diolch iti, Aled am dy gyfraniad.

Cefnogwr Lerpwl Pryderus!

Rydw i wedi bod yn gefnogwr mawr o dîm pêl-droed Lerpwl ers pan oeddwn yn fachgen bach, ac wedi profi ambell siom ac ambell i wefr fuddugoliaethus dros y blynyddoedd. Mae genna i gof clir o gêm ola'r tymor yn 1989 pan oedd yn rhaid i Lerpwl beidio â cholli o fwy nag un gôl yn erbyn Arsenal i gipio'r gynghrair, pan sgoriodd blincin Michael Thomas i Arsenal yn yr eiliadau olaf i'w gwneud hi'n 2-0, gan fynd â'r teitl o grafangau fy nhîm. Roedd honno'n siom fawr. Mae 'na lawer o nosweithiau eraill ers hynny, cofiwch, pan gefais gyfle i ddatlu buddugoliaeth Lerpwl mewn gemau cwpan mawr yn Ewrop, fel yr haf diwetha', er enghraifft,

pan drechodd Lerpwl y tîm o Lundain, Tottenham Hotspur, i ennill y *Champions League* - sef Cwpan Ewrop, am y chweched tro yn ei hanes. Roedd yr ail gêm yn erbyn Barcelona yn y rownd gynderfynol yn anghredadwy pan ddaeth y cochion yn ôl o dair gôl yn y gêm gynta' i guro'r Catalaniaid 4-0 yn yr ail gêm. Bydd nosweithiau fel honno yn aros yn y cof am byth.

Ers i Lerpwl benodi'r Almaenwr, Jurgen Klopp, fel ein rheolwr bedair blynedd yn ôl, mae pethau wedi mynd ar i fyny i ni, ac mae'r clwb wedi gwario arian a godwyd o werthu ambell chwaraewr yn gall i brynu chwaraewyr o'r safon uchaf, a chreu tîm a all ennill y gynghrair. Felly, wrth fynd i mewn i'r tymor newydd ym mis Awst 2019, roeddwn wirioneddol yn teimlo mae hon oedd y flwyddyn pryd fyddai'r *Premier League* - a gafodd ei sefydlu yn 1992 - yn dod i Anfield am y tro cynta yn ei hanes. Roeddem o fewn trwch aden gwybedyn i wneud hynny y llynedd, ond roedd gan Manchester City un pwynt yn fwy na ni ar ddiwedd y tymor! Dechreuodd Lerpwl y tymor newydd ar dân gan ennill y *Super Cup* Ewropeaidd ganol mis Awst ac fel yr oedd pethau'n mynd yn y misoedd cynta, doedd neb yn mynd i'n dal y tro 'ma. Bythefnos cyn y Nadolig, bu raid i'r garfan hedfan i wres tanbaid Qatar i gystadlu ym mhencampwriaeth clybiau pêl-droed y byd, ac roedd cryn ddatlu pan ddaethom yn bencampwyr y byd. Gan fod y Nadolig ar fin cyrraedd, gwelais siwmperi Nadolig a oedd yn dathlu buddugoliaeth Lerpwl ar werth ar-lein ac wedi'r fuddugoliaeth yn Qatar, roedd yn rhaid gwisgo un o'r siwmperi hyn i dynnu coes fy ffrindiau sy'n



Mae 'na fwy nag un cefnogwr Lerpwl yn y teulu!

cefnogi Man Iw! Tawel iawn oedd y rheini i gyd dros y Nadolig, a phob un yn deud ein bod ni'n mynd i'w gwneud hi eleni - a byddai angen rhywbeth mawr i ddigwydd yn y byd i'n rhwystro ni'r tro hwn!

Roeddwn yn canu mewn cyngerdd yn Llundain dros benwythnos dathliadau Gŵyl Ddewi - mewn adeilad ar draws y ffordd i Abaty Westminster - a'r noson ganlynol, roedd Lerpwl yn chwarae yn erbyn Watford yn y gynghrair. Roeddwn wedi trefnu i wylïo'r gêm yn y gwesty, a chan fod Lerpwl yn dal heb golli drwy'r tymor, roeddwn yn reit hyderus am fuddugoliaeth arall, gydag un llaw ar y cwpan. Wedi hynny, dim ond ychydig wythnosau oedd i fynd cyn y byddem yn bencampwyr, a hynny gyda'r cyfanswm pwyntiau uchaf erioed! Yn gwbl haeddiannol, collodd Lerpwl i Watford y noson honno ac, er fy mod yn siomedig, roeddwn yn gwybod bod yna siawns dda y byddai'r teitl efo ni cyn diwedd mis Mawrth.

Er bod siarad mawr am *COVID-19* dramor ar y newyddion yn ddyddiol ers misoedd, nid oeddwn wedi darogan y byddai'n byd ni i gyd yn newid mor syfrdanol ym mis Mawrth pan ddaeth y clefyd yn agosach. Cafodd ein bywydau prysur a'n symudiadau eu cyfyngu a daeth chwaraeon y byd i gyd i stop yn sydyn. Dim rygbi, dim pêl-droed 'na champau

ar y teledu, ac i rywun fel fi sy'n hoff o ddal i fyny ar bob math o chwaraeon, mae o'n deimlad mor od. Fel yr aeth yr wythnosau yn eu blaen a nifer o ddigwyddiadau a champau yn cael eu canslo'n gyfangwbl, dechreuais boeni'n fawr beth fyddai tynged fy nhîm annwyl, Lerpwl.

Mae popeth yn dal yn yr awyr ynglŷn â diweddglor'r tymor ac er bod penaethiaid y gynghrair yn gwbl sicr y cewn ni orffen y tymor, mae hynny i'w weld yn bell i ffwrdd ar hyn o bryd. Wrth reswm, iechyd pawb ar draws y byd sy'n dod gynta, a bydd yn rhaid sicrhau bod y firws hwn dan reolaeth lwyf cyn y bydd parhad i'r tymor pêl-droed. Byddai cael torf o 50,000 a mwy o gefnogwyr at ei gilydd cyn i bethau setlo yn anghyfrifol. Mae'n naturiol i mi ddeud y byddwn yn ysu i'r tymor gael ei gwblhau a ninne'n ennill y teitl, er bod nifer o fy ffrindiau yn tynnu fy nghoes drwy ddeud bod angen sgrapio'r tymor yn gyfangwbl gan ddechrau eto yn yr haf - ond mi fyddai'r rheini yn deud hynny, yn enwedig o gofio sut dymor mae eu tîm nhw wedi'i gael!

Mae 2020 yn flwyddyn rydym yn mynd i'w chofio am byth. Weles i erioed ddim byd tebyg yn fy mywyd - eto i gyd, am fy mod yn ffarmwr, dydi'r newidiadau ddim wedi effeithio llawer arna i hyd yn hyn gan fy mod wedi bod yn wyna am y mis diwetha' a heb fod i unman. Bydd yr amgylchiadau'n wahanol o hyn ymlaen gyda'r tymor wyna'n dod i ben. Fel canwr, mae pethau'n wahanol iawn eleni gyda phob cyngerdd tan fis Medi, o leia', wedi'u gohirio, ac fe fydd hi'n rhyfedd iawn i beidio â gadael y gwaith fferm i fynd i ffwrdd i ganu eleni! Gobeithio'n wir y daw ein bywydau yn ôl i'r arfer yn gynt 'na'r disgwyl, er mwyn i mi allu dathlu buddugoliaeth gynta y gynghrair sanctaidd hon mewn steil! Dwi'n canu'r anthem 'You'll Never Walk Alone' yn ddyddiol mewn gobaith.

Atebion Enwau Blodau Mis Ebrill

1. Fritillaria Imperialis
2. Erythronium
3. Kerria Japonica
4. Leucojum Aestivum neu Summer Snowflake
5. Skimia
6. Primula
7. Nemnesia

Nifer Wyaau Pasg

19

ISSN 1473-3692



9 771473 369000

Rhif 469 | EBRILL 2020

